# Agenda - Y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad

Lleoliad:

**Ystafell Bwyllgora 4 – Tŷ Hywel**

Dyddiad: Dydd Llun, 16 Hydref 2023

Amser: 13.30

I gael rhagor o wybodaeth cysylltwch a:

**P Gareth Williams**

Clerc y Pwyllgor

0300 200 6565

SeneddDCC@senedd.cymru

## 1 Cyflwyniad, ymddiheuriadau, dirprwyon a datgan buddiannau

(13.30)

## 2 Bil Senedd Cymru (Aelodau ac Etholiadau): Sesiwn dystiolaeth gyda'r Cwnsler Cyffredinol a Gweinidog y Cyfansoddiad

(13.30 – 14.30) (Tudalennau 1 – 28)

Mick Antoniw AS, y Cwnsler Cyffredinol a Gweinidog y Cyfansoddiad

Will Whiteley, Dirprwy Gyfarwyddwr, Diwygio'r Senedd, Llywodraeth Cymru

Anna Hind, Uwch-gyfreithiwr, Llywodraeth Cymru

Bil Senedd Cymru (Aelodau ac Etholiadau)

Memorandwm Esboniadol

Datganiad o Fwriad y Polisi

**Dogfennau atodol:**

LJC(6)-28-23 – Papur 1 – Nodyn briffio [Saesneg yn unig]

LJC(6)-28-23 – Papur 2 – Llythyr gan y Pwyllgor Biliau Diwygio at y Cwnsler Cyffredinol a Gweinidog y Cyfansoddiad, 26 Medi 2023

**Egwyl**

(14:30- 14:35)

Senedd Cymru
Welsh Parliament

## 3 Offerynnau nad ydynt yn cynnwys unrhyw faterion i'w codi o dan Reol Sefydlog 21.2 neu 21.3

(14.35 - 14.40) (Tudalen 29)

**Dogfennau atodol:**

LJC(6)-28-23 - Papur 3 - Adroddiad drafft

**Offerynnau'r Weithdrefn Penderfyniad Gwneud Negyddol**

**3.1 SL(6)389 - Rheoliadau'r Gwasanaeth Iechyd Gwladol (Ffioedd a Thaliadau Optegol) (Diwygio) (Cymru) 2023**

## 4 Offerynnau sy'n cynnwys materion i gyflwyno adroddiad arnynt i'r Senedd o dan Reol Sefydlog 21.2 neu 21.3

(14.40 - 14.45)

Offerynnau'r Weithdrefn Penderfyniad Gwneud Negyddol

**4.1 SL(6)388 - Rheoliadau'r Gwasanaeth Iechyd Gwladol (Gwasanaethau Offthalmig) (Cymru) 2023**

(Tudalennau 30 - 36)

Rheoliadau

Memorandwm Esboniadol

**Dogfennau atodol:**

LJC(6)-28-23 - Papur 4 - Adroddiad drafft

**4.2 SL(6)391 - Gorchymyn Cyflog ac Amodau Athrawon Ysgol (Rhif 2) (Cymru) 2023**

(Tudalennau 37 - 38)

Gorchymyn

Memorandwm Esboniadol

**Dogfennau atodol:**

LJC(6)-28-23 - Papur 5 - Adroddiad drafft

**Offerynnau'r Weithdrefn Penderfyniad Cadarnhaol**

**4.3 SL(6)390 – Gorchymyn Deddf Diogelu'r Amgylchedd (Cynhyrchion Plastig Untro) (Cymru) 2023 (Cychwyn Rhif 1) 2023**

(Tudalennau 39 – 41)

Gorchymyn

Memorandwm Esboniadol

**Dogfennau atodol:**

LJC(6)-28-23 – Papur 6 – Adroddiad drafft

## 5 Offerynnau sy'n cynnwys materion i gyflwyno adroddiad arnynt i'r Senedd o dan Reol Sefydlog 21.2 neu 21.3 – trafodwyd eisoes

(14.45 – 14.50)

**Offerynnau'r Weithdrefn Penderfyniad Cadarnhaol**

**5.1 SL(6)382 – Rheolau Etholiadau Lleol (Prif Ardaloedd) (Pleidlais Sengl Drosglwyddadwy) (Cymru) 2023**

(Tudalennau 42 – 52)

**Dogfennau atodol:**

LJC(6)-28-23 – Papur 7 – Adroddiad

LJC(6)-28-23 – Papur 8 – Ymateb Llywodraeth Cymru

## 6 Cytundeb Cysylltiadau Rhyngsefydliadol

(14.50 – 14.55)

**6.1 Gohebiaeth gan y Cwnsler Cyffredinol a Gweinidog y Cyfansoddiad: Pwyllgor Sefydlog Rhyngweinidogol**

(Tudalen 53)

**Dogfennau atodol:**

LJC(6)-28-23 – Papur 9 – Llythyr gan y Cwnsler Cyffredinol a Gweinidog y Cyfansoddiad, 9 Hydref 2023

## 7 Papurau i'w nodi

(14.55 - 15.00)

### 7.1 Gohebiaeth gan y Gweinidog Newid Hinsawdd: Ymateb i Argymhelliad 1 yn adroddiad y Pwyllgor ar Femoranda Cydsyniad Deddfwriaethol Llywodraeth Cymru ar y Bil Ynni

(Tudalen 54)

**Dogfennau atodol:**

LJC(6)-28-23 - Papur 10 - Llythyr gan y Gweinidog Newid Hinsawdd, 10 Hydref 2023

### 7.2 Gohebiaeth gan y Cwnsler Cyffredinol a Gweinidog y Cyfansoddiad: Argaeledd data wedi'u dadgyfuno ar y system cyfiawnder troseddol yng Nghymru

(Tudalennau 55 - 57)

**Dogfennau atodol:**

LJC(6)-28-23 - Papur 11 - Llythyr gan y Cwnsler Cyffredinol a Gweinidog y Cyfansoddiad, 11 Hydref 2023 [Saesneg yn unig]

### 7.3 Gohebiaeth gan y Cwnsler Cyffredinol a Gweinidog y Cyfansoddiad: Deddf Cyfraith yr UE a Ddargedwir (Dirymu a Diwygio) 2023

(Tudalennau 58 - 65)

**Dogfennau atodol:**

LJC(6)-28-23 - Papur 12 - Llythyr gan y Cwnsler Cyffredinol a Gweinidog y Cyfansoddiad, 12 Hydref 2023

LJC(6)-28-23 - Papur 13 - Llythyr at y Cwnsler Cyffredinol a Gweinidog y Cyfansoddiad, 22 Medi 2023

## 8 Cynnig o dan Reol Sefydlog 17.42 i benderfynu gwahardd y cyhoedd o weddill y cyfarfod

(15.00)

## 9 Bil Senedd Cymru (Aelodau ac Etholiadau): Trafod y dystiolaeth

(15.00 - 15.30)

## 10 Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol Atodol (Memorandwm Rhif 5) ar y Bil Ffyniant Bro ac Adfywio: Adroddiad drafft

(15.30 - 15.45) (Tudalennau 66 - 71)

**Dogfennau atodol:**

LJC(6)-28-23 - Papur 14 - Adroddiad drafft [Saesneg yn unig]

Mae cyfyngiadau ar y ddogfen hon

**Y Pwyllgor Biliau Diwygio**
—
**Reform Bill Committee**

**Senedd Cymru**
Bae Caerdydd, Caerdydd, CF99 1SN
SeneddDiwygio@enedd.cymru
senedd.cymru/SeneddDiwygio
0300 200 6565
—
**Welsh Parliament**
Cardiff Bay, Cardiff, CF99 1SN
SeneddReform@senedd.wales
senedd.wales/SeneddReform
0300 200 6565

Mick Antoniw AS
Y Cwnsler Cyffredinol
Llywodraeth Cymru

26 Medi 2023

Annwyl Mick

Bil Senedd Cymru (Aelodau ac Etholiadau): cyd-ddibyniaeth â'r Bil cwotâu rhywedd a ddisgwylir

Yn ei ddatganiad ar raglen ddeddfwriaethol Llywodraeth Cymru ar 27 Mehefin 2023, cyhoeddodd y Prif Weinidog, yn ogystal â Bil i ddiwygio maint, system etholiadol a threfniadau ffiniau'r Senedd, fod Llywodraeth Cymru yn bwriadu cyflwyno Bil i gyflwyno cwotâu rhywedd ar lefel ymgeiswyr ar gyfer etholiadau'r Senedd (y "Bil cwotâu rhywedd"). Mae'r Memorandwm Esboniadol ar gyfer Bil Senedd Cymru (Aelodau ac Etholiadau) ("Bil SC(ME)") yn nodi bod Llywodraeth Cymru hefyd yn bwriadu cynnwys darpariaeth mewn deddfwriaeth yn y dyfodol ar gyfer cyhoeddi gwybodaeth am amrywiaeth mewn perthynas ag ymgeiswyr i'r Senedd.

Er y bydd y Bil cwotâu rhywedd yn ddarn o ddeddfwriaeth ar wahân, a fydd yn amodol ar waith craffu ynddo'i hun maes o law, mae'n anochel y bydd rhywfaint o gyd-ddibyniaeth rhwng unrhyw Fil o'r fath a Bil Senedd Cymru (Aelodau ac Etholiadau). Mae hyn oherwydd y bydd angen i unrhyw gwotâu ar lefel ymgeiswyr a gyflwynir weithredu o fewn cyd-destun y system etholiadol, ffiniau a darpariaethau datgymhwyso y mae Bil Senedd Cymru (Aelodau ac Etholiadau) yn ceisio eu sefydlu.

Byddem yn ddiolchgar pe gallech:

1) Gadarnhau a fydd drafft o'r Bil cwotâu rhywedd yn cael ei gyhoeddi cyn ei gyflwyno'n ffurfiol. Os nad yw Llywodraeth Cymru yn bwriadu cyhoeddi Bil drafft, a wnewch chi gadarnhau'r rhesymau dros hyn, a nodwch a fyddai modd rhannu copi ymlaen llaw o'r Bil â ni, yn gyfrinachol, cyn ei gyflwyno'n ffurfiol.
2) Rhoi rhagor o wybodaeth i ni am amcanion y Bil a'r dull deddfwriaethol arfaethedig y mae Llywodraeth Cymru yn rhagweld y bydd yn eu dilyn o ran Bil cwotâu rhywedd. Dylai hyn gynnwys gwybodaeth am y canlynol, yn ogystal ag unrhyw wybodaeth arall yr ydych yn ei hystyried yn berthnasol:

a. Diben cyflwyno cwotâu rhywedd ar lefel ymgeiswyr ar gyfer etholiadau'r Senedd, gan gynnwys ystyried y nod(au) y mae Llywodraeth Cymru yn ceisio'i gyflawni drwy eu cyflwyno.

b. Y polisi arfaethedig a gaiff ei roi ar waith yn y Bil cwotâu rhywedd, gan gynnwys dyluniad a'r gweithrediad disgwyliedig o ran cwotâu rhywedd ar lefel ymgeiswyr, a sut y gorfodir cydymffurfiaeth.

c. Asesiad o'r goblygiadau y gellir yn rhesymol ddisgwyl a fydd i'r polisi arfaethedig o ran gweithredu a rhoi'r system etholiadol a gynigir ym Mil Senedd Cymru (Aelodau ac Etholiadau) ar waith, gan gynnwys, ond heb fod yn gyfyngedig i, gyflwyno rhestrau ymgeiswyr i swyddogion canlyniadau etholaeth (adran 7(1)), hyd rhestrau ymgeiswyr (adran 7(3)), a chymhwysedd ymgeiswyr i lenwi seddi gwag (adran 9)).

d. Gwybodaeth am sut yr ystyriwyd goblygiadau o'r fath wrth asesu'r effeithiau ariannol a'r effeithiau eraill yn y Memorandwm Esboniadol ar y Bil Senedd Cymru (Aelodau ac Etholiadau). Dylai hyn gynnwys manylion ynghylch pa rai o'r asesiadau ariannol neu'r asesiadau effaith eraill a fyddai wedi bod yn sylweddol wahanol pe bai darpariaeth ynghylch cwotâu rhywedd wedi'i chynnwys ym Mil Senedd Cymru (Aelodau ac Etholiadau), ac, os felly, sut.

Byddai'n ddefnyddiol cael eich ymateb erbyn 3 Tachwedd 2023.

Anfonir copïau o'r llythyr hwn at y Pwyllgor Cyllid a'r Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad, ac at y Dirprwy Weinidog Partneriaeth Gymdeithasol, gan ein bod yn deall mai hi fydd yr Aelod sy'n gyfrifol am y Bil cwotâu rhywedd.

Yn gywir

David F. Rees.

David Rees AS
Cadeirydd, Y Pwyllgor Biliau Diwygio

cc Peredur Owen Griffiths AS, Cadeirydd y Pwyllgor Cyllid
Huw Irranca Davies AS, Cadeirydd y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad
Hannah Blythyn AS, y Dirprwy Weinidog Partneriaeth Gymdeithasol

Croesewir gohebiaeth yn Gymraeg neu Saesneg. We welcome correspondence in Welsh or English.

# Offerynnau Statudol sydd ag Adroddiadau Clir
# 16 Hydref 2023

## SL(6)389 – Rheoliadau'r Gwasanaeth Iechyd Gwladol (Ffioedd a Thaliadau Optegol) (Diwygio) (Cymru) 2023

### Gweithdrefn: Gwneud Negyddol

Mae'r Rheoliadau hyn yn diwygio Rheoliadau'r Gwasanaeth Iechyd Gwladol (Ffioedd a Thaliadau Optegol) 1997 ("y Rheoliadau Optegol") sy'n darparu i daliadau gael eu gwneud drwy system dalebau o ran y costau yr eir iddynt gan gategorïau penodol o bersonau mewn cysylltiad â phrofion golwg a chyflenwi, amnewid a thrwsio teclynnau optegol.

**Rhiant-Ddeddf:** Ddeddf y Gwasanaeth Iechyd Gwladol (Cymru) 2006
**Fe'u gwnaed ar:** 27 Medi 2023
**Fe'u gosodwyd ar:** 29 Medi 2023
**Yn dod i rym ar:** 20 Hydref 2023

# SL(6)388 – Rheoliadau'r Gwasanaeth Iechyd Gwladol (Gwasanaethau Offthalmig) (Cymru) 2023

## Cefndir a diben

Mae Rheoliadau'r Gwasanaeth Iechyd Gwladol (Gwasanaethau Offthalmig) (Cymru) 2023 yn darparu ar gyfer gwasanaethau offthalmig sylfaenol o dan y Gwasanaeth Iechyd Gwladol ("GIG") yng Nghymru. Mae'r Rheoliadau hyn yn disodli, yn cydgrynhoi ac yn dirymu Rheoliadau blaenorol yn y maes hwn.

Mae'r Rheoliadau hyn yn atgynhyrchu, i raddau helaeth, ddarpariaethau'r Rheoliadau a ddirymir mewn cysylltiad â'r trefniadau sydd i'w gwneud gan Fyrddau Iechyd Lleol ar gyfer gwasanaethau offthalmig cyffredinol (profion golwg).

Mae'r Rheoliadau hyn hefyd yn ei gwneud yn ofynnol i Fyrddau Iechyd Lleol wneud trefniadau ar gyfer darparu gwasanaethau archwilio llygaid o dan y GIG yng Nghymru. Mae cyfeiriadau yn y Rheoliadau hyn at "wasanaethau offthalmig sylfaenol" yn cyfeirio at wasanaethau offthalmig cyffredinol ac at wasanaethau archwilio llygaid.

## Y weithdrefn

Negyddol

Gwnaed y Rheoliadau gan Weinidogion Cymru cyn iddynt gael eu gosod gerbron y Senedd. Gall y Senedd ddirymu'r Rheoliadau o fewn 40 niwrnod (ac eithrio unrhyw ddiwrnodau pan fo'r Senedd: (i) wedi'i diddymu, neu (ii) mewn cyfnod o doriad am fwy na phedwar diwrnod) i'r dyddiad y'u gosodwyd gerbron y Senedd.

## Materion technegol: craffu

Nodwyd y 22 o bwyntiau a ganlyn i gyflwyno adroddiad arnynt o dan Reol Sefydlog 21.2 mewn cysylltiad â'r offeryn hwn.

**1. Rheol Sefydlog 21.2(v) – bod angen eglurhad pellach ynglŷn â'i ffurf neu ei ystyr am unrhyw reswm penodol**

Yn rheoliad 2, rhoddir yr un diffiniadau ag sydd yn narpariaethau dehongli Deddfau neu offerynnau statudol eraill, neu ag a geir yn ddiweddarach yn y Rheoliadau hyn. Fodd bynnag, mae llawer o'r diffiniadau hyn yn methu â nodi yn union ble y gellir dod o hyd i'r diffiniad mewn adran neu baragraff. Mae hyn yn ei gwneud yn anoddach i'r darllenydd ddod o hyd i'r diffiniadau. Mae hefyd yn achosi problemau o ran diffinio ystyr rhai o'r termau lle'r oedd y cyfeiriadau amwys yn methu â gwahaniaethu rhwng termau neu gysyniadau tebyg a geir yn y darpariaethau a nodwyd. Mae'r broblem hon yn digwydd yn rheolaidd drwy weddill y Rheoliadau hyn:

a. mae’r ddau ddiffiniad o “optegydd cyflenwi” ac “optometrydd” yn cyfeirio at berson sydd wedi'i gofrestru yn “**y gofrestr** a gynhelir o dan **adran 7** o Ddeddf Optegwyr 1989” sy’n awgrymu mai un gofrestr sydd. Fodd bynnag, dylai nodi “adran 7(b)” ac “adran 7(a)” yn y drefn honno gan fod cofrestrau ar wahân ar gyfer y ddau broffesiwn i nodi eu hunion leoliadau a gwahaniaethu rhyngddynt. Am yr un rheswm, mae’r geiriau mewn cromfachau yn anghywir gan y dylent ddefnyddio’r enw lluosog “cofrestr**au** optegwyr” fel a geir uwchben adran 7 o’r Ddeddf honno oherwydd mai 2 gofrestr sydd.

b. rhoddir yr ystyr i’r ddau ddiffiniad o “archwiliad llygaid” a “gwasanaethau archwilio llygaid” yn “rheoliad 3”. Ond, dylai nodi “rheoliad 3(3)(a)” a “rheoliad 3(3)(b)” yn y drefn honno i nodi eu hunion leoliadau ac i wahaniaethu rhyngddynt;

c. rhoddir yr ystyr i’r diffiniadau o “gwasanaethau offthalmig cyffredinol” a “gwasanaethau offthalmig sylfaenol” yn rheoliad 4. Ond, dylai nodi y’u ceir yn “rheoliad 4(a)” a “rheoliad 4(b)” yn y drefn honno i nodi eu hunion leoliadau ac i wahaniaethu rhyngddynt;

d. mae’r diffiniad o “Addysg a Gwella Iechyd Cymru” yn nodi mai ei ystyr yw’r “corff a sefydlwyd gan Orchymyn Addysg a Gwella Iechyd Cymru (Sefydlu a Chyfansoddiad) 2017”. Byddai’n fwy manwl gywir nodi’r ddarpariaeth benodol yn y Gorchymyn hwnnw - “a sefydlwyd **o dan erthygl 2 o** Orchymyn….2017”, fel y gwnaed yn y diffiniad o “Tribiwnlys Haen Gyntaf”;

e. rhoddir i’r diffiniadau o “digwyddiadau cychwynnol”, “y gofrestr” a “practis symudol” i gyd yr ystyr a geir yn Atodlen 3 i’r Rheoliadau hyn. Mae Atodlen 3 yn Atodlen hir a gellid ei gwneud yn gliriach y’u ceir i gyd “**ym mharagraff 18 o** Atodlen 3”.

f. rhoddir i’r diffiniadau o “rhestr offthalmig” a “rhestr atodol” yr ystyron a geir yn rheoliad 10. Gallai hyn nodi’n fwy manwl gywir “yn rheoliad 10(2)(a)” ac “yn rheoliad 10(2)(b)” yn y drefn honno i nodi eu hunion leoliadau ac i wahaniaethu rhwng y gwahanol restrau;

**2. Rheol Sefydlog 21.2(v) – bod angen eglurhad pellach ynglŷn â'i ffurf neu ei ystyr am unrhyw reswm penodol**

Yn rheoliad 2, ar ddiwedd y diffiniad o “cyflogaeth”, ceir rhestr o dermau cysylltiedig eraill sydd i’w dehongli yn unol ag ystyr “cyflogaeth”. Fodd bynnag, ymddengys nad oes angen hyn gan fod adran 9 o Ddeddf Deddfwriaeth (Cymru) 2019 yn darparu ar ei gyfer. At hynny, mae’r term “cyflogwr” eisoes wedi’i ddiffinio ar wahân fel term yn rheoliad 2. Ceir diffiniad arall hefyd o “cyflogai” ym mharagraff 18(5) o Atodlen 4.

Mae’r un broblem yn digwydd ym mharagraff 18(5) o Atodlen 4 lle y mae rhaid dehongli “cyflogi” yn unol â’r ystyr a roddir i “cyflogai”.

3. **Rheol Sefydlog 21.2(v) – bod angen eglurhad pellach ynglŷn â'i ffurf neu ei ystyr am unrhyw reswm penodol**

Yn rheoliad 4(a), mae'r cyfeiriad at "baragraff 23" yn methu â nodi'r union leoliad lle y gellir dod o hyd iddo gan nad oes Atodlen wedi'i nodi yn y cyfeiriad. Ymddengys ei fod yn cyfeirio at baragraff 23 "**o Atodlen 4**" i'r Rheoliadau hyn.

4. **Rheol Sefydlog 21.2(v) – bod angen eglurhad pellach ynglŷn â'i ffurf neu ei ystyr am unrhyw reswm penodol**

Yn rheoliad 7(4), ceir cyfeiriad at "baragraff **(2)(n)** o'r Atodlen honno" ond mae'n methu â nodi'r paragraff penodol yn Atodlen 1 i'r Rheoliadau hyn. Mae'n debyg ei fod yn cyfeirio at "baragraff **1(2)(n)** o'r Atodlen honno" ac os felly dylai'r rhif paragraff "1" ymddangos yn y cyfeiriad hwnnw.

5. **Rheol Sefydlog 21.2(vii) – ei bod yn ymddangos bod anghysondebau rhwng ystyr testun Cymraeg a thestun Saesneg yr offeryn neu'r drafft**

Yn rheoliad 12, yn y testun Cymraeg, ym mhenawdau Pennod 3, rheoliad 12 a rheoliad 14, ac yng nghorff rheoliad 12(3) a (4), a rheoliad 28(1)(b) a (7), pryd bynnag y defnyddir yr ymadrodd "cynnwys", mae'r geiriau "yr ymarferydd" wedi'u hychwanegu yn y cyfieithiad i wneud synnwyr gramadegol ac i gyfleu ystyr y brawddegau.

Defnyddiwyd yr un dull hefyd i gyfieithu "dileu" mewn lleoedd fel ym mhenawdau Pennod 4 a rheoliadau 17 a 19, yng nghorff rheoliad 17(6) a (10) ac ym mhenawdau Rhan 5 a pharagraffau 12, 13 a 14 yn Atodlen 3. Mae hyn yn golygu y defnyddir "ymarferydd" yn hytrach nag "ymarferydd cymwysedig" yn y testun Cymraeg.

Fodd bynnag, y term diffiniedig yw "ymarferydd cymwysedig" ac am y rheswm hwnnw dyna'r hyn a ddylai fod wedi'i ddefnyddio yn y testun Cymraeg.

6. **Rheol Sefydlog 21.2(v) – bod angen eglurhad pellach ynglŷn â'i ffurf neu ei ystyr am unrhyw reswm penodol**

Yn rheoliad 13(5), mae'r ddarpariaeth yn nodi bod rhaid i'r Bwrdd Iechyd Lleol ystyried "**y ffactorau**" a nodir ym mharagraff 10 o Atodlen 3. Fodd bynnag, mae paragraff 10 o'r Atodlen honno'n cyfeirio at "**y ffeithiau**" y mae rhaid eu hystyried er y cyfeirir at "ffactorau" ym mharagraffau 14 i 17 o Atodlen 3. Felly, nid yw'r drafftio yn gyson â'r hyn a geir ym mharagraff 10 o Atodlen 3, oni bai bod y cyfeiriad ei hun yn anghywir.

7. **Rheol Sefydlog 21.2(v) – bod angen eglurhad pellach ynglŷn â'i ffurf neu ei ystyr am unrhyw reswm penodol**

Mae rheoliad 17(3)(c) yn cyfeirio at ddileu ymarferydd cymwysedig o restr offthalmig neu atodol pan fo wedi'i euogfarnu yn y Deyrnas Unedig o drosedd (ac eithrio llofruddiaeth), a gyflawnwyd ar neu ar ôl 30 Gorffennaf 2002 yn achos rhestr offthalmig, neu ar neu ar ôl 1

Chwefror 2006 yn achos rhestr atodol. A oes modd egluro pam yr ystyriwyd bod angen cynnwys y dyddiadau penodol 30 Gorffennaf 2002 a 1 Chwefror 2006?

**8. Rheol Sefydlog 21.2(vii) – ei bod yn ymddangos bod anghysondebau rhwng ystyr testun Cymraeg a thestun Saesneg yr offeryn neu'r drafft**.

Yn rheoliad 27(1)(a), mae'r testun Saesneg yn cyfeirio at "regulation 13" ond mae'r testun Cymraeg yn cyfeirio at "reoliad 15".

**9. Rheol Sefydlog 21.2(v) – bod angen eglurhad pellach ynglŷn â'i ffurf neu ei ystyr am unrhyw reswm penodol**

Mae rheoliad 27(2)(i) yn ei gwneud yn ofynnol i fwrdd iechyd lleol hysbysu Awdurdod Gwrth-dwyll y GIG pan fo'n gwneud penderfyniad sy'n ymwneud ag achos o dwyll o fewn ystyr adran 107(3) o Ddeddf Gwasanaeth Iechyd Gwladol (Cymru) 2006.

Gofynnir i Lywodraeth Cymru a ddylai'r gofyniad hwn fod yn gymwys hefyd mewn perthynas ag achos o dwyll o fewn ystyr rheoliad 17(3)(d).

**10. Rheol Sefydlog 21.2(v) – bod angen eglurhad pellach ynglŷn â'i ffurf neu ei ystyr am unrhyw reswm penodol**

Yn rheoliad 42, ymddengys fod newid yn y derminoleg drwy'r rheoliad lle y defnyddir y term "person", yn hytrach na'r term "ymarferydd cymwysedig" mewn perthynas â chynnwys ar restr offthalmig neu restr atodol Bwrdd Iechyd Lleol. Diffinnir y ddwy restr yn rheoliad 10(2) fel rhai sy'n cynnwys "ymarferwyr cymwysedig" yn unig. Diffinnir y term "ymarferydd cymwysedig" gan reoliad 2 a defnyddir y term hwnnw, yn hytrach na "person", mewn rheoliadau eraill drwy'r Rheoliadau hyn mewn perthynas â'r rhestrau hynny. Gofynnir am eglurhad o ran pam y defnyddir y term "person" yn rheoliad 42, yn hytrach na'r term diffiniedig "ymarferydd cymwysedig".

**11. Rheol Sefydlog 21.2(vii) – ei bod yn ymddangos bod anghysondebau rhwng ystyr testun Cymraeg a thestun Saesneg yr offeryn neu'r drafft**

Yn rheoliad 42(11)(a), mae'r fersiwn Saesneg o'r Rheoliadau yn darllen, "*...received an application for inclusion in its previous ophthalmic list or previous supplementary list...*". Fodd bynnag, mae'r gair "*ymarferydd*" wedi'i ychwanegu yn y fersiwn Gymraeg o reoliad 42(11)(a) i gyfleu ystyr yr un frawddeg, sy'n golygu bod gwahaniaeth mewn ystyr rhwng y testun Cymraeg a Saesneg. Mewn geiriau eraill, ymddengys fod y testun Cymraeg wedi'i gyfyngu i gynnwys "*ymarferwyr*", ond nid yw'r testun Saesneg yn cynnwys y cyfyngiad hwn. Nodir hefyd fod gweddill rheoliad 42 yn y testun Cymraeg yn defnyddio "*person*" yn hytrach nag "*ymarferydd*". Gofynnir am eglurhad mewn perthynas â'r anghysondebau amlwg hyn.

**12. Rheol Sefydlog 21.2(v) – bod angen eglurhad pellach ynglŷn â'i ffurf neu ei ystyr am unrhyw reswm penodol**

Yn Atodlen 1, ym mharagraff 1(2)(c), yn y testun Saesneg, mae teitl yr OS, "the National Health Service (**Travel Expenses** and Remission of Charges) (Wales) 2007" yn anghywir. Dylai

nodi “**Travelling** Expenses” yn hytrach na “**Travel** Expenses” yn nheitl yr OS. Rhoddir teitl cywir yr OS ym mharagraff 1(9) o Atodlen 1.

**13. Rheol Sefydlog 21.2(v) – bod angen eglurhad pellach ynglŷn â'i ffurf neu ei ystyr am unrhyw reswm penodol**

Yn Atodlen 1, ym mharagraff 1(7)(b), rhoddir ystyr i “teulu” “ym mharagraff (g)”. Fodd bynnag, nid ymddengys fod “teulu” yn cael ei ddefnyddio ym mharagraff (g). Felly, mae angen eglurhad pellach o ran pa un a yw’r cyfeiriad yn anghywir ac a ddylai gyfeirio at baragraff arall (paragraff (i) o bosib).

**14. Rheol Sefydlog 21.2(vii) – ei bod yn ymddangos bod anghysondebau rhwng ystyr testun Cymraeg a thestun Saesneg yr offeryn neu’r drafft**

Yn Atodlen 2, ym mharagraff 3(7), mae gwahaniaeth rhwng y testun Cymraeg a Saesneg. Yn y testun Saesneg, cyfeirir at “the qualifications **and experience** prescribed by paragraph 1”. Fodd bynnag, yn y testun Cymraeg, mae’r geiriau “**a’r profiad**” ar goll.

**15. Rheol Sefydlog 21.2(v) – bod angen eglurhad pellach ynglŷn â'i ffurf neu ei ystyr am unrhyw reswm penodol**

Yn Atodlen 2, ym mharagraff 4, ceir diffiniad o “y gwasanaeth iechyd” ar gyfer “yr Atodlen hon”. Fodd bynnag, dim ond unwaith yn yr Atodlen y defnyddir y term hwn, ym mharagraff 1(1)(a)(i). Felly, dylid ei gynnwys yn narpariaeth ddehongli bresennol paragraff 1(3) sy’n diffinio term arall ar gyfer “y paragraff hwn” yn hytrach nag ar gyfer yr Atodlen gyfan.

**16. Rheol Sefydlog 21.2(v) – bod angen eglurhad pellach ynglŷn â'i ffurf neu ei ystyr am unrhyw reswm penodol**

Yn Atodlen 3, ym mharagraff 1, mae’r derminoleg yn amrywio rhwng “person” yn is-baragraffau (a) i (d), ac “ymarferydd cymwysedig” yn is-baragraffau (e) i (i). A oes rheswm dros newid y derminoleg neu a ddylid defnyddio’r term “ymarferydd cymwysedig” yn enwedig wrth gyfeirio at unigolion sydd wedi’u cynnwys yn y rhestr offthalmig? Mae termau’n amrywio yn yr un modd ym mharagraff 2 mewn perthynas â’r rhestr atodol.

**17. Rheol Sefydlog 21.2(v) – bod angen eglurhad pellach ynglŷn â'i ffurf neu ei ystyr am unrhyw reswm penodol**

Yn Atodlen 3, ym mharagraff 6(a), cyfeirir at “yr wybodaeth **a’r ddogfen**, os ydynt yn berthnasol, sy’n ofynnol gan reoliad 16”. Fodd bynnag, credwn y dylai nodi “**a’r dystysgrif**” yn hytrach nag “**a’r ddogfen**” oherwydd ei bod yn cyfeirio at dystysgrif cofnod troseddol manwl yn rheoliad 16(3).

**18. Rheol Sefydlog 21.2(v) – bod angen eglurhad pellach ynglŷn â'i ffurf neu ei ystyr am unrhyw reswm penodol**

Mae paragraff 10(1)(b) o Atodlen 3 yn cyfeirio at “drosedd, digwyddiad, **euogfarn** neu ymchwiliad” (pwyslais wedi’i ychwanegu). Mae paragraff 10(1)(a), (c), (d) ac (e) yn cyfeirio

(mewn ffurfweddau amrywiol) at "drosedd, ymchwiliad neu ddigwyddiad".

Gofynnir i Lywodraeth Cymru egluro pam y mae'r gair ychwanegol "euogfarn" wedi'i gynnwys ym mharagraff 10(1)(b). Mae'r un cwestiwn yn codi mewn perthynas â pharagraff 15(2)(b) o Atodlen 3.

**19. Rheol Sefydlog 21.2(vii) – ei bod yn ymddangos bod anghysondebau rhwng ystyr testun Cymraeg a thestun Saesneg yr offeryn neu'r drafft**

Yn Atodlen 4, ym mharagraff 10(3)(a)(iii), mae gwahaniaeth bach rhwng y testun Cymraeg a Saesneg. Yn y testun Saesneg, nodir "**when and** as required under paragraph 9(3)" ond mae wedi'i gyfieithu fel "fel y bo'n ofynnol o dan baragraff 9(3)". Ym mharagraff 9(3), defnyddir yr ymadrodd "pan fydd yn ofynnol iddo wneud hynny" yn y testun Cymraeg sy'n cyfateb i "when required to do so" yn y testun Saesneg.

**20. Rheol Sefydlog 21.2(v) – bod angen eglurhad pellach ynglŷn â'i ffurf neu ei ystyr am unrhyw reswm penodol**

Yn Atodlen 4, ym mharagraff 15(1), nodir "i'r **wybodaeth** y darparodd y contractwr yn unol â **pharagraff 7 o Atodlen 3**". Dylai nodi "**datganiadau**" yn hytrach na "wybodaeth" gan fod paragraff 7 o Atodlen 3 yn ymdrin â datganiadau oni bai bod y cyfeiriad ei hun yn anghywir gan fod gwybodaeth yn cael ei darparu yn unol â pharagraffau eraill o Atodlen 3.

**21. Rheol Sefydlog 21.2(v) – bod angen eglurhad pellach ynglŷn â'i ffurf neu ei ystyr am unrhyw reswm penodol**

Yn Atodlen 4, ym mharagraff 22(2)(b)(i), mae'r term "yr ymarferydd" wedi'i ddiffinio, ac fe'i defnyddir ym mharagraff 22. Fodd bynnag, ym mharagraff 22(3), defnyddir y term "yr ymarferydd cymwysedig" ar ddiwedd y paragraff hwnnw. A yw hyn yn fwriadol gan fod "ymarferydd cymwysedig" hefyd yn derm diffiniedig yn y Rheoliadau hyn neu a ddylai gyfeirio at "yr ymarferydd"?

**22. Rheol Sefydlog 21.2(v) – bod angen eglurhad pellach ynglŷn â'i ffurf neu ei ystyr am unrhyw reswm penodol**

Yn Atodlen 4, ym mharagraff 27(2)(b), nodir nad oes dim sy'n atal corff corfforedig "rhag defnyddio'r enw y mae wedi'i gofrestru odano **yn y gofrestr a gynhelir** o dan Ddeddf Optegwyr 1989". Fodd bynnag, cynhelir sawl cofrestr o dan Ddeddf Optegwyr 1989, ac nid yw "y gofrestr" yn derm diffiniedig at ddibenion Atodlen 4 (ar gyfer Atodlen 3 yn unig). Felly, a ddylai'r ddarpariaeth hon bennu'r gofrestr ac a yw'n cyfeirio at y gofrestr o'r cyrff corfforedig a gynhelir o dan adran 9 o Ddeddf Optegwyr 1989? Os felly, a ddylid defnyddio'r term diffiniedig "optegydd corfforedig" yn hytrach na "corff corfforedig" yn y ddarpariaeth?

## Rhinweddau: craffu

Nodwyd y pwyntiau a ganlyn i gyflwyno adroddiad arnynt o dan Reol Sefydlog 21.3 mewn cysylltiad â'r offeryn hwn.

**23. Rheol Sefydlog 21.3(ii) – ei fod o bwysigrwydd gwleidyddol neu gyfreithiol neu ei fod yn codi materion polisi cyhoeddus sy'n debyg o fod o ddiddordeb i'r Senedd**

Nodir y defnyddir, drwy'r Rheoliadau hyn, gyfeiriadau anghywir amrywiol ar gyfer rhaniadau ac is-raniadau darpariaethau. Er enghraifft, ym mharagraff 7(2) o Atodlen 6, disgrifir cyfeiriad yn anghywir fel "paragraff (b)", yn hytrach na'r disgrifiad cywir "is-baragraff (b)". Atgoffir Llywodraeth Cymru o bwysigrwydd defnyddio'r cyfeiriadau cywir ar gyfer rhaniadau ac is-raniadau wrth ddrafftio is-ddeddfwriaeth.

## Ymateb Llywodraeth Cymru

Mae angen ymateb gan Lywodraeth Cymru mewn perthynas â phwyntiau 1-22.

**Cynghorwyr Cyfreithiol**
**Y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad**
**12 Hydref 2023**

# SL(6)391 – Gorchymyn Cyflog ac Amodau Athrawon Ysgol (Rhif 2) (Cymru) 2023

## Cefndir a Diben

Mae'r Gorchymyn hwn yn darparu ar gyfer tâl ac amodau cyflogaeth athrawon ysgol mewn ysgolion a gynhelir yng Nghymru. Mae'r Gorchymyn yn gwneud hynny drwy roi effaith i:

- Ddogfen Cyflog ac Amodau Athrawon Ysgol (Cymru) 2022 a chanllawiau ar gyflog ac amodau athrawon ysgol (diwygiedig) – Medi 2023 (**Dogfen 2022**), a

- Dogfen Cyflog ac Amodau Athrawon Ysgol (Cymru) 2023 a chanllawiau ar gyflog ac amodau athrawon ysgol (**Dogfen 2023**).

Mae Dogfen 2022 yn gwneud newidiadau ar gyfer y flwyddyn 2022/23 gan ddarparu cyfrifiadau sydd wedi'u diwygio ychydig o'r cyfandaliad heb fod yn gyfunedig o 1.5% a oedd yn rhan o ddyfarniad cyflog 2022/23. Mae'r Memorandwm Esboniadol yn nodi "*Defnyddiwyd methodoleg ddiwygiedig i gyfrifo'r taliad heb fod yn gyfunedig o ganlyniad i sylwadau a wnaed gan undebau athrawon. Mae'r fethodoleg ddiwygiedig yn arwain at gynnydd bach iawn ym mhob achos.*" Bydd y newidiadau hyn yn berthnasol i'r cyfnod rhwng 1 Medi 2022 a 31 Awst 2023.

Mae Dogfen 2023 yn gwneud newidiadau eraill i gyflog ac amodau. Mewn ymateb i drafodaethau ag undebau athrawon a chyflogwyr, o 1 Medi 2023 ymlaen bydd codiad o 5% yn cael ei gymhwyso i bob pwynt graddfa cyflog a lwfans. Mae Dogfen 2023 hefyd yn darparu eglurhad ar dasgau gweinyddol na ddylid eu cyflawni fel mater o drefn gan athrawon (gweler paragraff 51.9 ac Atodiad 3 o Ddogfen 2023).

Daw'r Gorchymyn i rym ar 28 Hydref 2023, felly mae'r newidiadau a wneir gan y Gorchymyn hwn yn cynnwys darpariaeth ôl-weithredol. Caniateir darpariaeth ôl-weithredol o'r fath o dan Ddeddf Addysg 2002, h.y. y Ddeddf y mae'r Gorchymyn hwn yn cael ei wneud oddi tani.

Cyhoeddodd Jeremy Miles AS, Gweinidog y Gymraeg ac Addysg, ddatganiad ysgrifenedig ar y Gorchymyn ar 5 Hydref 2023.

## Y weithdrefn

Negyddol

Gwnaed y Gorchymyn gan Weinidogion Cymru cyn iddo gael ei osod gerbron y Senedd. Gall y Senedd ddirymu'r Gorchymyn o fewn 40 niwrnod (ac eithrio unrhyw ddiwrnodau pan fo'r Senedd: (i) wedi'i diddymu, neu (ii) mewn cyfnod o doriad am fwy na phedwar diwrnod) i'r dyddiad y'i gosodwyd gerbron y Senedd.

## Materion technegol: craffu

Ni nodir unrhyw bwyntiau i gyflwyno adroddiad arnynt o dan Reol Sefydlog 21.2 mewn perthynas â'r offeryn hwn.

## Rhinweddau: craffu

Nodwyd un pwynt i gyflwyno adroddiad arno o dan Reol Sefydlog 21.3 mewn perthynas â'r offeryn hwn:

**1. Rheol Sefydlog 21.3(ii) – ei fod o bwysigrwydd gwleidyddol neu gyfreithiol neu ei fod yn codi materion polisi cyhoeddus sy'n debyg o fod o ddiddordeb i'r Senedd**

Rydym yn nodi bod y Gorchymyn hwn yn rhan o ymateb Llywodraeth Cymru i bryderon ynghylch cyflog ac amodau gwaith athrawon yng Nghymru. Rydym hefyd yn nodi'r canlynol o'r Asesiad Effaith Rheoleiddiol:

> *Bydd yr opsiwn hwn yn bodloni ymrwymiadau a gytunwyd arnynt yn flaenorol mewn perthynas â chyflog ac amodau athrawon, drwy weithredu dyfarniad Blwyddyn 2 o 5% o fis Medi 2023 a darparu eglurder ar dasgau clerigol a gweinyddol na ddylai athrawon eu cyflawni'n rheolaidd. Mae'r cytundeb eisoes wedi helpu i osgoi camau diwydiannol pellach a gymerir gan undebau athrawon gan leihau'r tarfu posibl ar addysg pobl ifanc. Mae'n bosibl y byddai hefyd yn cael effaith gadarnhaol ar gadw athrawon yng Nghymru a denu athrawon newydd gymhwyso i'r proffesiwn yng Nghymru. Gallai'r eglurhad o'r sefyllfa statudol na ddylai fod yn ofynnol fel mater o drefn i athrawon ymgymryd â thasgau gweinyddol, clerigol a sefydliadol helpu i wella effeithlonrwydd ysgolion ac osgoi llwyth gwaith diangen i athrawon."*

## Ymateb Llywodraeth Cymru

Nid oes angen ymateb gan Lywodraeth Cymru.

**Cynghorwyr Cyfreithiol**
**Y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad**
**10 Hydref 2023**

# SL(6)390 – Gorchymyn Deddf Diogelu'r Amgylchedd (Cynhyrchion Plastig Untro) (Cymru) 2023 (Cychwyn Rhif 1) 2023

## Cefndir a diben

Mae Deddf Diogelu’r Amgylchedd (Cynhyrchion Plastig Untro) (Cymru) 2023 (”y Ddeddf”) yn gwahardd cyflenwi cynhyrchion plastig untro penodol i ddefnyddwyr yng Nghymru, oni bai bod esemptiad. Mae'r cynhyrchion penodol a'r esemptiadau perthnasol yn cael eu nodi yn y Tabl yn yr Atodlen i'r Ddeddf.

Daeth adrannau 3, 4, 17, 21, 22 a 23 o’r Ddeddf i rym ar 7 Mehefin 2023, sef y diwrnod ar ôl i’r Ddeddf gael Cydsyniad Brenhinol.

Mae Gorchymyn Deddf Diogelu'r Amgylchedd (Cynhyrchion Plastig Untro) (Cymru) 2023 (Cychwyn Rhif 1) 2023 (“y Gorchymyn”) yn dwyn i rym holl ddarpariaethau eraill y Ddeddf, ac eithrio tri chofnod yn y Tabl o gynhyrchion plastig untro gwaharddedig.

O ganlyniad, o 30 Hydref 2023, bydd yn drosedd i gorff corfforaethol, partneriaeth, cymdeithas anghorfforedig neu berson sy'n gweithredu fel unig fasnachwr, gyflenwi, neu gynnig cyflenwi, y cynhyrchion plastig untro canlynol i ddefnyddiwr yng Nghymru, oni bai bod esemptiad:

- cwpanau,
- cytleri;
- troyddion diodydd,
- gwellt,
- platiau,
- cynhwysyddion cludfwyd,
- ffyn balwnau, a
- ffyn cotwm.

## Y weithdrefn

Cadarnhaol

Mae Gweinidogion Cymru wedi gosod drafft o'r Gorchymyn gerbron y Senedd. Ni all Gweinidogion Cymru wneud y Gorchymyn oni bai bod y Senedd yn cymeradwyo'r Gorchymyn drafft.

## Materion technegol: craffu

Ni nodir unrhyw bwyntiau i gyflwyno adroddiad arnynt o dan Reol Sefydlog 21.2 mewn perthynas â’r offeryn hwn.

## Rhinweddau: craffu

Nodwyd y tri phwynt a ganlyn i gyflwyno adroddiad arnynt o dan Reol Sefydlog 21.3 mewn perthynas â'r offeryn hwn.

1. **Rheol Sefydlog 21.3(ii) – ei fod o bwysigrwydd gwleidyddol neu gyfreithiol neu ei fod yn codi materion polisi cyhoeddus sy'n debyg o fod o ddiddordeb i'r Senedd.**

Yn unol ag adran 21(3) o'r Ddeddf, mae'r Gorchymyn yn ddarostyngedig i'r weithdrefn gadarnhaol ddrafft. Mae'n anarferol iawn i orchymyn cychwyn fod yn ddarostyngedig i'r lefel hon o graffu yn y Senedd; nid yw mwyafrif y gorchmynion cychwyn yn ddarostyngedig i unrhyw weithdrefn graffu yn y Senedd.

2. **Rheol Sefydlog 21.3(ii) – ei fod o bwysigrwydd gwleidyddol neu gyfreithiol neu ei fod yn codi materion polisi cyhoeddus sy'n debyg o fod o ddiddordeb i'r Senedd.**

Yn ôl paragraff 4.4 o'r Memorandwm Esboniadol, mae Llywodraeth Cymru yn bwriadu cyflwyno'r gwaharddiad ar y cynhyrchion plastig untro penodol fesul cam.

Mae'r Gorchymyn yn dwyn i rym wyth o'r 11 cofnod yn y Tabl o gynhyrchion gwaharddedig yn yr Atodlen i'r Ddeddf. Gofynnir i Lywodraeth Cymru egluro:

- pam nad yw'r gwaharddiadau sy'n ymwneud â chaeadau ar gyfer cwpanau neu gynwysyddion cludfwyd, bagiau siopa a chynhyrchion a wnaed o blastig ocso-ddiraddiadwy yn cael eu cychwyn ar yr adeg hon,
- pryd y bydd gweddill y cofnodion yn y Tabl yn cael eu cychwyn, a
- sawl cam arall sydd yn yr arfaeth i ddwyn y gwaharddiadau sy'n weddill i rym?

3. **Rheol Sefydlog 21.3(ii) – ei fod o bwysigrwydd gwleidyddol neu gyfreithiol neu ei fod yn codi materion polisi cyhoeddus sy'n debyg o fod o ddiddordeb i'r Senedd.**

Mae Deddf Marchnad Fewnol y Deyrnas Unedig 2020 ("UKIMA") yn cynnwys egwyddorion mynediad i'r farchnad sydd, yn fras, yn sicrhau bod nwyddau y gellir eu gwerthu'n gyfreithlon mewn un rhan o'r DU hefyd yn gallu cael eu gwerthu yn rhywle arall yn y DU, heb unrhyw ofynion perthnasol a fyddai fel arall yn gymwys i werthu'r nwyddau hynny yn y rhan arall honno o'r DU. Mae paragraff 13 o Atodlen 1 i UKIMA yn darparu nad yw'r egwyddorion mynediad i'r farchnad yn gymwys i ddeddfwriaeth i'r graddau y mae'n gwahardd gwerthu rhai eitemau plastig untro penodol.

Nodir bod y cynhyrchion a restrir yn y cofnodion yn y Tabl a ddygwyd i rym gan y Gorchymyn yr un fath â'r eitemau sydd wedi'u heithrio o egwyddorion mynediad i'r farchnad yn UKIMA gan baragraff 13 o Atodlen 1 i UKIMA.

Nid yw'r cynhyrchion a restrir yn y tri chofnod yn y Tabl nad ydynt yn cael eu dwyn i rym gan y Gorchymyn – caeadau ar gyfer cwpanau neu gynwysyddion cludfwyd, bagiau siopa a chynhyrchion a wnaed o blastig ocso-ddiraddadwy – wedi'u cynnwys ym mharagraff 13 o

Atodlen 1 i UKIMA ac felly mae'n ymddangos nad ydynt wedi'u cynnwys yn yr eithriad o'r egwyddorion mynediad i'r farchnad.

Yn ystod hynt y Bil a ddaeth yn Ddeddf, cododd y Pwyllgor hwn bryderon ynghylch effaith egwyddorion mynediad i'r farchnad yn UKIMA ar effeithiolrwydd y darpariaethau yn y Bil. Gofynnir i Lywodraeth Cymru a yw'n parhau i fod o'r farn y bydd y Ddeddf yn "*gwbl effeithiol ac yn orfodadwy*"[1] pan gaiff ei chychwyn yn llawn.

## Ymateb Llywodraeth Cymru

Mae angen ymateb gan Lywodraeth Cymru i'r ail a'r trydydd pwynt adrodd.

**Cynghorwyr Cyfreithiol**
**Y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad**
**10 Hydref 2023**

[1] Llythyr gan y Gweinidog Newid Hinsawdd at y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad, 9 Rhagfyr 2022

Eitem 5.1

# SL(6)382 - Rheolau Etholiadau Lleol (Prif Ardaloedd) (Pleidlais Sengl Drosglwyddadwy) (Cymru) 2023

## Cefndir a diben

Ar 6 Mai 2022, daeth darpariaethau Deddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) 2021 (**Deddf 2021**) sy'n ymwneud â'r system pleidlais sengl drosglwyddadwy ar gyfer ethol cynghorwyr i brif gyngor (h.y. cyngor sir neu gyngor bwrdeistref sirol) i rym Mae'r darpariaethau hyn yn caniatáu i brif gynghorau benderfynu cynnal etholiadau gan ddefnyddio'r system pleidlais sengl drosglwyddadwy yn hytrach na'r system mwyafrif syml.

Mewnosodwyd adran 36A o Ddeddf Cynrychiolaeth y Bobl 1983, sy'n galluogi Gweinidogion Cymru i wneud rheolau ar gyfer cynnal etholiadau llywodraeth leol yng Nghymru, gan adran 13 o Ddeddf 2021. Arferwyd y pŵer hwnnw i wneud Rheolau Etholiadau Lleol (Prif Ardaloedd) (Cymru) 2021 (**Rheolau 2021**). Mae Rheolau 2021 yn nodi sut y mae'n rhaid cynnal etholiadau i brif gynghorau pan ddefnyddir y system mwyafrif syml. Nid ydynt yn gwneud darpariaeth ar gyfer cynnal etholiadau pan ddefnyddir y system pleidlais sengl drosglwyddadwy.

Mae Rheolau Etholiadau Lleol (Prif Ardaloedd) (Pleidlais Sengl Drosglwyddadwy) (Cymru) 2023 yn diwygio Rheolau 2021 er mwyn iddynt ddarparu ar gyfer cynnal etholiadau pan ddefnyddir y system pleidlais sengl drosglwyddadwy. Bydd Rheolau 2021 yn parhau i wneud darpariaeth ynghylch y system mwyafrif syml ar gyfer cynnal etholiadau mewn prif ardaloedd nad ydynt wedi penderfynu defnyddio'r system pleidlais sengl drosglwyddadwy.

System pleidleisio blaenoriaethol yw'r system pleidlais sengl drosglwyddadwy, sy'n golygu y gofynnir i bleidleiswyr roi'r ymgeiswyr sydd ar gael yn nhrefn eu blaenoriaeth, gan ddefnyddio rhifau. Caiff pleidleiswyr ddewis roi'r holl ymgeiswyr sydd ar gael mewn trefn neu ddim ond cynifer ag y dymunant. Ystyrir bod y system pleidlais sengl drosglwyddadwy yn system cynrychiolaeth gyfrannol. Mae fel arfer yn arwain at ganlyniadau sydd ar y cyfan yn adlewyrchu cyfrannau'r pleidleisiau a fwriwyd ar gyfer y gwahanol bleidiau gwleidyddol, grwpiau ac ymgeiswyr annibynnol mewn ardal etholaethol unigol ac yn yr etholiad cyfan.

Diffinnir y system pleidlais sengl drosglwyddadwy yn ffurfiol yn adran 6(2) o Ddeddf 2021.

Mae'r ffurf ragnodedig a ganlyn ar gyfer blaen y papur pleidleisio ar gyfer y system pleidlais sengl drosglwyddadwy wedi'i nodi yn y Rheolau ar gyfer y system:

| | | |
|---|---|---|
| **Etholiad cynghorwyr i [rhowch enw'r cyngor sir neu'r cyngor bwrdeistref sirol] – [rhowch enw'r ward]** | | |
| Gallwch ddewis cynifer neu gyn lleied ag y dymunwch.<br>Rhowch y rhif **1** yn y blwch pleidleisio gyferbyn â'ch dewis cyntaf.<br>Rhowch y rhif **2** yn y blwch pleidleisio gyferbyn â'ch ail ddewis.<br>Rhowch y rhif **3** yn y blwch pleidleisio gyferbyn â'ch trydydd dewis. **Ac yn y blaen.** | | |
| **JAMES, Lisa**<br>6, Y Stryd, Y Dre CY36 4EZ<br>**Plaid Hybu Moeseg mewn Llywodraeth Leol** | Arwyddl un | |
| **KAY, Michael**<br>12, Y Stryd Fawr, CP1 5LL<br>**Plaid Gwella'r Gyfraith Etholiadol** | Arwyddl un | |
| **THOMAS, Gareth**<br>Gwlad yr Iâ<br>**Plaid Gwella'r Gyfraith Etholiadol** | Arwyddl un | |
| **THOMAS RICHARDS, Angharad**<br>Sir Hafod<br>**Plaid Cyfraith Dda** | Arwyddl un | |
| **WILLIAMS, Sian**<br>92, Yr Avenue, CP12 3LO<br>**Annibynnol** | | |
| **WYATT, Cath**<br>Sir Gernyw<br>**Plaid Effeithlonrwydd** | Arwyddl un | |
| **XERRI, Mathew**<br>24 Pen-y-Lan, CP2 6NQ<br>**Plaid Cyfraith Dda** | Arwyddl un | |

## Y weithdrefn

Cadarnhaol drafft

Mae Gweinidogion Cymru wedi gosod drafft o'r Rheolau Pleidlais Sengl Drosglwyddadwy gerbron y Senedd. Ni all Gweinidogion Cymru wneud y Rheolau Pleidlais Sengl Drosglwyddadwy oni bai bod y Senedd yn cymeradwyo'r Rheolau drafft.

## Materion technegol: craffu

Nodwyd y 6 phwynt a ganlyn i gyflwyno adroddiad arnynt o dan Reol Sefydlog 21.2 mewn cysylltiad â'r offeryn hwn.

**1. Rheol Sefydlog 21.2(vi) – ei bod yn ymddangos bod gwaith drafftio'r offeryn neu'r drafft yn ddiffygiol neu ei fod yn methu â bodloni gofynion statudol**

Nodwn y mân wallau drafftio a ganlyn.

- Yn rheol 2(a), mae'r disgrifiad o'r diwygiad, "yn y geiriau mewn cromfachau", yn methu â nodi'r lleoliad ac nid yw'n ddefnyddiol oherwydd bod pob un o'r diffiniadau a restrir yn rheol 3(3) yn cynnwys geiriau mewn cromfachau wedyn. Byddai wedi bod yn ddigon nodi "yn lle "adran 202(1)" rhodder "adrannau 202(1) a 203(1)"" gan mai dim ond un cyfeiriad sydd at adran 202(1) yn rheol 3(3).
- Yn hytrach na chyfeirio at "paragraff" dylid cyfeirio at "is-baragraff".
    - Yn rheolau 3(5)(c) a 7(5)(c), disgrifir lleoliadau'r diwygiadau yn anghywir fel "o flaen paragraff (a)". Fodd bynnag, dylid disgrifio'r ddau fel "is-baragraff (a)" gan eu bod yn rhaniadau o fewn paragraffau a geir yn rheol 31 o Atodlenni 1 a 2 yn y drefn honno i Reolau 2021.
    - Yn rheolau 4(2) ac 8(2), yn rheolau newydd 60J, 60K, 60O, 60P, 64N, 64O, 64S a 64T, mae cyfeiriadau mynych at "baragraff (a) ("papurau trosglwyddadwy")" ac at "baragraff (b) ("papurau anhrosglwyddadwy")". Fodd bynnag, mae'r disgrifiadau o'r cyfeiriadau hyn yn anghywir a dylid eu disgrifio i gyd fel "is-baragraff (a) ("papurau trosglwyddadwy")" ac "is-baragraff (b) ("papurau anhrosglwyddadwy")".
- Yn rheol 8(1), yn y testun Saesneg, mae geiriau ar goll yn y disgrifiad o leoliad y diwygiad i bennawd Rhan 4 o "Schedule 2 2021 Rules". Dylai nodi "Schedule 2 to the 2021 Rules".

**2. Rheol Sefydlog 21.2(v) – bod angen eglurhad pellach ynglŷn â'i ffurf neu ei ystyr am unrhyw reswm penodol**

Mae rheol newydd 60F yn nodi rhestr o dermau diffiniedig sy'n berthnasol i Bennod 2. Pan fydd rheol ym Mhennod 2 yn defnyddio un o'r termau hynny, yn aml caiff darllenwyr eu hatgoffa bod y term wedi'i ddiffinio yn rheol 60F. Er enghraifft:

- Mae rheol 60F yn diffinio “cwota”.
- Mae rheol 60I(2) yn defnyddio'r term “cwota”.
- Mae rheol 60I(5) yn atgoffa darllenwyr bod ystyr “cwota” i’w weld yn rheol 60F.

Nodwn fod rheol 60F hefyd yn diffinio “cam o’r cyfrif”. Fodd bynnag, pan ddefnyddir “cam o’r cyfrif” yn rheolau 60I, 60K a 60Q er enghraifft, nid oes unrhyw nodyn atgoffa bod ystyr “cam o’r cyfrif” i'w weld yn rheol 60F. Gweler hefyd y defnydd o’r term “ymgeisydd sy’n parhau” yn rheol 60N.

Mae’r un mater yn codi o ran y diffiniadau a nodir yn rheol 64J.

Nodwn hefyd fod rheol 3 o Reolau 2021 yn cynnwys diffiniadau sy’n gymwys i Reolau 2021 yn eu cyfanrwydd; er enghraifft, mae rheol 3 yn diffinio “Deddf 1983” i olygu Deddf Cynrychiolaeth y Bobl 1983. Fodd bynnag, lle y mae Rheolau 2021 yn defnyddio’r term “Deddf 1983” nid oes unrhyw nodyn atgoffa bod y diffiniad i’w weld yn rheol 3.

Byddem yn ddiolchgar pe gallai Llywodraeth Cymru egluro ei dull ar gyfer nodi diffiniadau a phryd y mae angen atgoffa darllenwyr o ble y gellir dod o hyd i ddiffiniadau.

**3. Rheol Sefydlog 21.2(v) – bod angen eglurhad pellach ynglŷn â'i ffurf neu ei ystyr am unrhyw reswm penodol**

Mewn rhai mannau, mae'r Rheolau Pleidlais Sengl Drosglwyddadwy yn cyfeirio at drosglwyddo papurau yn gyffredinol yn unol â rheol benodol. Fodd bynnag, mewn mannau eraill, mae'r Rheolau’n cyfeirio at drosglwyddo papurau yn unol â pharagraffau penodol o reol benodol.

Er enghraifft:

- Mae rheol 60P(3) yn cyfeirio at drosglwyddo papurau “yn unol â’r rheol hon”.
- Mae rheol 64T(3) yn cyfeirio at drosglwyddo papurau “yn unol â pharagraffau (4) a (5) o’r rheol hon”.

Nid yw'n glir a yw’r gwahaniaeth hwn yn fwriadol a pha effaith a gaiff ar drosglwyddo papurau.

Gweler hefyd reolau 60J, 60K, 64N, 64O a 64S.

**4. Rheol Sefydlog 21.2(v) – bod angen eglurhad pellach ynglŷn â'i ffurf neu ei ystyr am unrhyw reswm penodol**

Mae rheol newydd 60P(5) yn cyfeirio at werth trosglwyddo pleidlais fel “y gwerth a oedd i’r bleidlais **ar y papur pleidleisio** pan gafwyd hi gan yr ymgeisydd a eithriwyd” (pwyslais wedi'i ychwanegu). Fodd bynnag, mae rheol gyfatebol 64T(5) yn cyfeirio at werth trosglwyddo pleidlais fel “y gwerth a oedd i’r bleidlais pan gafwyd hi gan yr ymgeisydd a eithriwyd”.

Nid yw'n glir a yw’r gwahaniaeth hwn yn fwriadol a pha effaith a gaiff ar werth trosglwyddo pleidlais.

**5. Rheol Sefydlog 21.2(v) – bod angen eglurhad pellach ynglŷn â'i ffurf neu ei ystyr am unrhyw reswm penodol**

Mae rheolau newydd 60T a 64X yn nodi'r weithdrefn ar gyfer ailgyfrif pleidleisiau. Mae'r rheolau hyn i raddau helaeth yn adlewyrchu rheolau presennol 57 o Atodlen 1 a 61 o Atodlen 2. Fodd bynnag, mae'r rheolau presennol hynny'n cynnwys darpariaeth ychwanegol sy'n cadarnhau bod y rheolau sy'n gymwys i ailgyfrif hefyd yn gymwys i unrhyw ailgyfrif pellach. Nodwn nad yw rheolau newydd 60T a 64X yn cynnwys y ddarpariaeth ychwanegol honno.

**6. Rheol Sefydlog 21.2(vii) – ei bod yn ymddangos bod anghysondebau rhwng ystyr testun Cymraeg a thestun Saesneg yr offeryn neu'r drafft**

- Yn rheol 3(3)(b), yn rheol newydd 22(3A)(a), mae gwahaniaeth rhwng y testun Cymraeg a Saesneg. Mae'r testun Saesneg yn cyfeirio at "Appendix **2A**" ond mae'r testun Cymraeg yn cyfeirio at "Atodiad **2**".

- Yn rheol 8(2), yn rheol newydd 64G(3)(a), mae gwahaniaeth rhwng y testun Cymraeg a Saesneg. Mae'r testun Saesneg yn cyfeirio at "the **registration** officer" ond mae wedi'i gyfieithu yn y testun Cymraeg fel "y swyddog **canlyniadau**".

- Yn rheol 8(2), yn rheol newydd 64R(1), mae gwahaniaeth rhwng y testun Cymraeg a Saesneg. Mae'r testun Saesneg yn cyfeirio at "rule 64N **or 64O**" ond dim ond at "rheol 64N" y mae'r testun Cymraeg yn cyfeirio.

- Yn Atodlen 3, yn yr Atodiad newydd 5A, yn y "Cerdyn Pleidleisio Swyddogol Dirprwy" newydd ar dudalen 50 (testun Saesneg)/tudalen 64 (testun Cymraeg), mae gwahaniaeth rhwng y testun Cymraeg a Saesneg. Ym mrawddeg olaf y golofn dde, mae'r testun Saesneg yn cyfeirio at "A poll card sent or delivered to **the proxy of an elector**..." ond mae hyn wedi'i gyfieithu fel "cerdyn pleidleisio a anfonir neu a ddanfonir **at etholwr**..." yn y testun Cymraeg.

  Mae'r un gwall hefyd yn codi yn Atodlen 7, yn yr Atodiad newydd 5A ar gyfer Atodlen 2 i Reolau 2021, yn y "Cerdyn Pleidleisio Swyddogol Dirprwy" newydd ar dudalen 77 (testun Saesneg)/ tudalen 83 (testun Cymraeg).

- Yn Atodlen 6, yn yr Atodiad newydd 4A, yn y "Cyfarwyddiadau ar farcio'r papurau pleidleisio a llenwi'r datganiad pleidleisio post", ym mhwynt 2 ar dudalen 69 (testun Saesneg)/ tudalen 74 (testun Cymraeg), mae gwahaniaeth rhwng y testun Cymraeg a Saesneg. Yn y testun Cymraeg, mae paragraff ychwanegol nad yw'n bresennol yn y testun Saesneg yn union ar ôl y geiriau sy'n cyfateb i "Rhowch y rhif 3 yn y blwch pleidleisio gyferbyn â'ch trydydd dewis. Ac yn y blaen". Mae'r paragraff ychwanegol yn y testun Cymraeg yn rhoi cyfarwyddiadau i'r darllenydd ynghylch rhoi'r rhifau yn y blychau ar ochr dde'r papur pleidleisio wrth ymyl enw'r ymgeisydd.

- Yn Atodlen 6, yn yr Atodiad newydd 4A, yn y "Cyfarwyddiadau ar farcio'r papurau pleidleisio a llenwi'r datganiad pleidleisio post", ym mhwynt 2 ar dudalen 69 (testun Saesneg)/ tudalen 74 (testun Cymraeg), mae gwahaniaeth rhwng y testun Cymraeg a Saesneg. Yn y testun Saesneg, yn y paragraff sy'n dechrau â'r geiriau "Where the ballot paper has been sent to a person voting as proxy,…." mae cyfeiriad at "a suitable form of words **for marking** the ballot paper". Ond mae hyn wedi'i gyfieithu i olygu "ffurf addas ar eiriau **ar gyfer y cyfarwyddiadau ynglŷn â marcio'r** papur pleidleisio" yn y testun Cymraeg. Ymddengys fod y testun Cymraeg yn gywir y tro hwn gan fod y geiriau "ar gyfer y cyfarwyddiadau" wedi'u cynnwys yn gynharach yn yr un ymadrodd ym mhwynt 2 o'r cyfarwyddiadau hyn ac mewn darpariaeth debyg yn ddiweddarach yn Atodlen 8, ym mhwynt 3 o'r Atodiad newydd 6A.

- Yn Atodlen 7, yn yr Atodiad newydd 5A, yn y "Cerdyn Pleidleisio Swyddogol Dirprwy" newydd, ar "Cefn y cerdyn" ar dudalen 78 (testun Saesneg)/ tudalen 83 (testun Cymraeg), mae gwahaniaeth rhwng y testun Cymraeg a Saesneg. Yn y testun Saesneg, mae'r gair 'write' yn ymddangos ar ddiwedd y frawddeg "Do not mark the ballot paper in any other way **write**". O ganlyniad, nid yw'r testun Saesneg yn gwneud synnwyr ac mae'r cyfieithiad wedi hepgor y gair yn y testun Cymraeg. Ymddengys fod y testun Cymraeg yn gywir gan fod yr un frawddeg wedi'i defnyddio heb y gair "write" mewn tua 9 man arall yn yr Atodlenni.

## Rhinweddau: craffu

Nodwyd y pwynt a ganlyn i gyflwyno adroddiad arno o dan Reol Sefydlog 21.3 mewn cysylltiad â'r offeryn hwn.

**7. Rheol Sefydlog 21.3(ii) – ei fod o bwysigrwydd gwleidyddol neu gyfreithiol neu ei fod yn codi materion polisi cyhoeddus sy'n debyg o fod o ddiddordeb i'r Senedd**

Mae rheol newydd 32(12) yn nodi gwybodaeth y mae rhaid ei chynnwys yn y bythau pleidleisio mewn gorsafoedd pleidleisio pan ddefnyddir y system pleidlais sengl drosglwyddadwy. Rhaid cynnwys y wybodaeth a ganlyn:

(a) cyfarwyddyd i'r pleidleisiwr i roi'r rhif 1 yn y blwch pleidleisio gyferbyn â'i ddewis cyntaf;

(b) esboniad i'r pleidleisiwr y caiff wneud cynifer neu gyn lleied o ddewisiadau ychwanegol ag y dymuna, ynghyd â chyfarwyddyd ynghylch sut i wneud hyn drwy roi'r rhif 2 gyferbyn â'i ail ddewis, y rhif 3 gyferbyn â'i drydydd dewis ac yn y blaen.

O ystyried y bydd y system pleidlais sengl drosglwyddadwy yn newydd i lawer o bleidleiswyr, a wnaeth Llywodraeth Cymru ystyried cynnwys rhagor o wybodaeth mewn bythau pleidleisio, gan gynnwys, er enghraifft, esboniad o ganlyniadau gwneud dewisiadau ychwanegol (h.y. y gall pleidleisiau gael eu trosglwyddo lle y caiff ymgeisydd ei ethol ac mae ganddo bleidleisiau dros ben)?

## Ymateb Llywodraeth Cymru

Mae angen ymateb gan Lywodraeth Cymru ar gyfer pwyntiau 2 i 7.

## Trafodaeth y Pwyllgor

Trafododd y Pwyllgor yr offeryn yn ei gyfarfod ar 2 Hydref 2023 ac mae'n cyflwyno adroddiad i'r Senedd yn unol â'r pwyntiau adrodd uchod.

**Ymateb y Llywodraeth: *Rheolau Etholiadau Lleol (Prif Ardaloedd) (Pleidlais Sengl Drosglwyddadwy) (Cymru) 2023***

**Pwynt Craffu Technegol 2**: *Fel y mae'r adroddiad yn cydnabod, mae gwahanol dermau allweddol wedi'u diffinio'n eglur yn y darpariaethau dehongli yn yr OS, ac nid oes angen unrhyw ddarpariaeth bellach i roi effaith i'r termau hynny a ddiffinnir. Mewn OS gellir cyfeirio at derm a ddiffinnir os yw'r drafftiwr yn ystyried bod hynny o gymorth neu'n briodol, gan roi sylw i natur y term a ddiffinnir ac ym mha le y'i diffinnir yn yr Offeryn Statudol. Yn yr achos hwn mae Llywodraeth Cymru wedi ei bodloni yr oedd o gymorth i atgoffa'r darllenydd o'r diffiniad o'r term "Cwota".*

**Pwynt Craffu Technegol 3**: *Bwriad Llywodraeth Cymru yw bod rheol 60P(3) yn cael yr un effaith â rheol 64T(3). Mae'n eglur o ddrafftio, er enghraifft, rheol 60P(3), mai'r unig rannau o reol 60P(3) a allai fod yn gymwys yw paragraffau (4) a (5). Mae hyn yr un mor gymwys i reolau 60J, 60K, 64N, 64O a 64S.*

**Pwynt Craffu Technegol 4**: *Mae Llywodraeth Cymru yn ystyried mai'r un effaith a fwriedir gan y drafftio yn rheolau 60P(5) a 64T(5) ac ni ystyrir bod hepgor "ar y papur pleidleisio" yn rheol 64T(5) yn newid effaith gyfreithiol y darpariaethau. Er bod hyn yn cael ei ystyried yn ddigon eglur ac nid yw'n newid yr effaith gyfreithiol, fodd bynnag bydd Llywodraeth Cymru yn ceisio cywiro hyn cyn i'r Offeryn Statudol gael ei wneud.*

**Pwynt Craffu Technegol 5**: *Mae Llywodraeth Cymru yn ystyried bod y gwahaniaethau rhwng y prosesau sy'n sail i gyfrif o dan STV a'r cyntaf i'r felin yn cyfiawnhau'r dulliau gweithredu gwahanol o ran Rheolau'r STV a Rheolau 2021. Mae'r ddarpariaeth yn Rheolau 2021 y cyfeirir ati gan y Pwyllgor yn cael ei hystyried yn ddarpariaeth egluro. Mae Llywodraeth Cymru yn ystyried ei bod yn gynhenid o ddrafftio'r Rheolau STV bod ailgyfrif ar gael mewn cysylltiad ag ailgyfrif oherwydd bod rhaid cynnig yr opsiwn i unrhyw ymgeisydd neu asiant etholiadol sy'n bresennol cyn i'r swyddog canlyniadau allu symud i gam nesaf y cyfrif STV.*

**Pwynt Craffu Technegol 6**: *Mae Llywodraeth Cymru yn ddiolchgar i'r Pwyllgor am nodi'r mân bwyntiau cyfwerthedd hyn rhwng y testunau Cymraeg a Saesneg. Rydym yn derbyn y pwyntiau a godwyd a byddwn yn gwneud y cywiriadau a nodir yn y tabl a atodir i'r ymateb hwn cyn i'r Rheolau gael eu gwneud.*

**Pwynt Craffu ar Rinweddau 7**: *Rhoddodd Llywodraeth Cymru ystyriaeth i hyn, fodd bynnag mae cyngor gan arbenigwyr yn tueddu i argymell y dylid cadw gwybodaeth am STV i bleidleiswyr mor syml â phosibl. Comisiynodd Llywodraeth Cymru waith ymchwil ar weithredu STV, sydd wedi helpu i lywio'r gwaith o ddrafftio'r Rheolau:*

*Rhoi System Pleidlais Sengl Drosglwyddadwy (STV) ar waith ar gyfer etholiadau lleol Cymru (llyw.cymru)*

*Roedd y gwaith ymchwil hwn wedi argymell yn benodol:*

*"Dylai deunydd addysgol i bleidleiswyr ganolbwyntio ar sut i lenwi papur pleidleisio, gan osgoi trafod trosglwyddiadau".*

*Cywiriadau drafftio technegol i'w gwneud cyn i'r Rheolau gael eu gwneud*

| **CYWIRIADAU A WNAED I'R TESTUN CYMRAEG CYN GWNEUD** | **CYWIRIADAU A WNAED I'R TESTUN SAESNEG CYN GWNEUD** |
|---|---|
| **Rheolau Etholiadau Lleol (Prif Ardaloedd) (Pleidlais Sengl Drosglwyddadwy) (Cymru) 2023** | **The Local Elections (Principal Areas) (Single Transferable Vote) (Wales) Rules 2023** |
| Yn y testun Cymraeg yn unig, yn Rheol 3(3)(b), yn y rheol newydd 22(3A)(a), yn lle Atodiad "2" rhodder Atodiad "2A". | |
| Yn Rheolau 3(5)(c) a 7(5)(c), yn lle "paragraff" rhodder "is-baragraff". | Yn Rheolau 3(5)(c) a 7(5)(c), yn lle "paragraph" rhodder "sub-paragraph". |
| | Yn y testun Saesneg yn unig, yn Rheol 8(1), mewnosodir "to the" rhwng "Schedule 2" a "2021 Rules". |
| Yn y testun Cymraeg yn unig, yn Rheol 8(2), yn y rheol newydd 64R, ar ôl "reol 64N" mewnosodir "neu 64O". | |
| Yn y testun Cymraeg yn unig, yn rheol 8(2), yn y rheol newydd 64G(3)(a), yn lle'r geiriau "swyddog canlyniadau", rhodder "swyddog cofrestru". | |
| Yn Rheol 64T(5), ar ôl "y bleidlais", mewnosodir y testun "ar y papur pleidleisio". | Yn Rheol 64T(5), ar ôl "the vote", mewnosodir y testun "on the ballot paper". |
| Yn y testun Cymraeg yn unig, yn Atodlen 3, yn yr Atodiad newydd 5A ("Cerdyn Pleidleisio Swyddogol Dirprwy"), yn lle "etholwr" rhodder "ddirprwy etholwr" | |
| Yn y testun Cymraeg yn unig, yn Atodlen 7, yn yr Atodiad newydd 5A ("Cerdyn Pleidleisio Swyddogol Dirprwy") ar dudalen 77, yn lle "etholwr" rhodder "ddirprwy etholwr". | |

| | |
|---|---|
| Yn y testun Cymraeg yn unig, yn Atodlen 6, yn yr Atodiad newydd 4A, ym mhwynt 2 ar dudalen 74 o'r testun Cymraeg, hepgorir y testun canlynol – "Dylid rhoi'r rhif neu'r rhifau yn y blwch ar ochr dde y papur pleidleisio gyferbyn ag enw'r ymgeisydd y bwriedir i'r rhif fod ar ei gyfer." | |
| | Yn y testun Saesneg yn unig, yn Atodlen 6, yn yr Atodiad newydd 4A, ym mhwynt 2 ar dudalen 69 yn y paragraff sy'n dechrau â'r geiriau "Where the ballot paper has been sent to a person voting as proxy,…." yn lle'r geiriau "a suitable form of words for marking the ballot paper" rhodder "a suitable form of words for the instructions for marking the ballot paper". |
| | Yn y testun Saesneg unig, yn Atodlen 7, yn yr Atodiad newydd 5A ("Official Proxy Poll Card"), ar "Back of card" ar dudalen 78, yn y frawddeg sy'n dechrau â'r geiriau "Do not mark the ballot paper…" ar ddiwedd y frawddeg honno, hepgorer y gair "write". |

**Mick Antoniw AS/MS**
**Y Cwnsler Cyffredinol a Gweinidog y Cyfansoddiad**
**Counsel General and Minister for the Constitution**

Eitem 6.1

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Eich cyf/Your ref CG/PO/332/2023
Ein cyf/Our ref CG/PO/332/2023

Huw Irranca-Davies AS
Cadeirydd
Y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad
Senedd Cymru

9fed Hydref 2023

**Y Cytundeb Cysylltiadau Rhyngsefydliadol: Y Pwyllgor Sefydlog Rhyngweinidogol**

Rwyf yn ysgrifennu yn unol â'r cytundeb cysylltiadau rhyngsefydliadol i'ch hysbysu am bedwerydd cyfarfod y Pwyllgor Sefydlog Rhyngweinidogol a gynhelir ar 19 Hydref.

Caiff y Pwyllgor Sefydlog ei gadeirio gan Ddirprwy Brif Weinidog yr Alban ac Ysgrifennydd y Cabinet dros Gyllid, Shona Robinson ASA. Byddaf yn cynrychioli Llywodraeth Cymru yn y cyfarfod.

Yn y cyfarfod rhithwir hwn, rwyf yn rhag-weld y bydd y drafodaeth yn canolbwyntio ar ddeddfwriaeth y DU a Chysylltiadau Rhyngwladol.

Byddaf yn rhoi diweddariad ar ôl y cyfarfod.

Rwyf hefyd wedi copïo'r llythyr hwn at y Pwyllgor Cyllid, Pwyllgor yr Economi, Masnach a Materion Gwledig, a'r Pwyllgor Diwylliant, Cyfathrebu, y Gymraeg, Chwaraeon a Chysylltiadau Rhyngwladol.

**Mick Antoniw AS/MS**
Y Cwnsler Cyffredinol a Gweinidog y Cyfansoddiad
Counsel General and Minister for the Constitution

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400
Gohebiaeth.Mick.Antoniw@llyw.cymru
Correspondence.Mick.Antoniw@gov.Wales

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1SN

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn y Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth Gymraeg sy'n dod i law yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

Julie James AS/MS
Y Gweinidog Newid Hinsawdd
Minister for Climate Change

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Ein cyf/Our ref: JJ/PO/333/2023

Huw Irranca-Davies AS
Cadeirydd
Y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad
Senedd Cymru
Bae Caerdydd
Caerdydd
CF99 1SN

10 Hydref 2023

Annwyl Huw,

Diolch am yr adroddiad gan y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad ar Femorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol Llywodraeth Cymru ar Fil Ynni y DU.

Rwy'n llwyr werthfawrogi'r heriau y mae'r Bil hwn wedi'u creu o ran craffu effeithiol gan y Senedd. Fe wnaethom drafod yr heriau hynny yn ystod y ddadl ar y Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol ar 12 Medi 2023, felly ni fyddaf yn ailadrodd y pwyntiau a godais. Fodd bynnag, hoffwn sicrhau'r Pwyllgor fod Llywodraeth Cymru wedi ymrwymo'n llwyr i wneud popeth o fewn ein gallu i sicrhau bod ein deddfwrfa yn cael y cyfle i graffu'n briodol ar ddeddfwriaeth y DU sy'n ddarostyngedig i gonfensiwn Sewel ac sydd angen cydsyniad y Senedd. Rwy'n gobeithio y bydd yr heriau a wynebwyd gennym ar Fil Ynni y DU yn unigryw, a byddaf yn nodi mewn gohebiaeth bellach atoch y camau yr ydym am eu cymryd wrth ddysgu'r gwersi o'r Bil hwn.

Gofynnodd un o argymhellion yr adroddiad am fanylion llawn y prosesau mewnol a ddilynir gan adrannau unigol Llywodraeth Cymru, ac ar y cyd gan Gabinet Cymru, wrth gysylltu â Llywodraeth y DU ar Filiau'r DU sy'n ymwneud â Rheol Sefydlog 29.

Roedd llythyr y Cwnsler Cyffredinol at y Pwyllgor ar 8 Medi yn archwilio'r broses o fewn Llywodraeth Cymru o ran penderfyniadau yn ymwneud â Biliau'r DU. Mae'r safbwynt yn parhau bod pob Bil yn wahanol. Rydym yn disgwyl ymgysylltiad amserol ac agored gan Lywodraeth y DU ar holl ddeddfwriaeth y DU a allai fod yn berthnasol, yn unol ag ymrwymiadau a wnaed fel rhan o'r Adolygiad o Gysylltiadau Rhynglywodraethol (IGR).

Yn gywir,

Julie James

**Julie James AS/MS**
Y Gweinidog Newid Hinsawdd
Minister for Climate Change

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400
Gohebiaeth.Julie.James@llyw.cymru
Correspondence.Julie.James@gov.Wales

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1SN

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.
We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

**Mick Antoniw AS/MS**
**Y Cwnsler Cyffredinol a Gweinidog y Cyfansoddiad**
**Counsel General and Minister for the Constitution**

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Eich cyf/Your ref: CG/PO/340/2023
Ein cyf/Our ref CG/PO/340/2023

Huw Irranca-Davies MS
Chair
Legislation, Justice and Constitution Committee
Senedd Cymru

11th October 2023

Dear Huw

Further to the Committee session on 10 July 2023, where we discussed work on improving the availability of disaggregated data on the criminal justice system in Wales, I am writing to the Committee with a fuller update on work being driven forward by Welsh Government in this area.

Justice Data Dashboards published by Welsh Government

Whilst existing justice data for Wales can be found in various published statistical releases, it is often split across open data tables and geographical tools. To realise more value from existing published data on the justice system in Wales, analysts from the Welsh Government Knowledge and Analytical Services (KAS) directorate are developing interactive Power BI dashboards to bring together and disseminate Welsh justice data.

The first of these, focused on Youth Justice, was published on Thursday 31 August. The dashboard brings together Wales-specific data from across the accompanying tables of **Youth Justice annual statistics, published by the Youth Justice Board for England and Wales**.

There are four main topic areas included in the dashboard, as outlined below. "Children" in this dashboard refers to people aged 10 to 17.

- Children who offend – the number and characteristics of children receiving cautions or sentences in Wales
- Proven Offences – the number and nature of proven offences committed by children in Wales.
- Outcomes – the number of cautions or sentences given to children in Wales.
- Welsh Youth Justice Performance Indicators – a set of performance indicators specific to the Youth Justice system in Wales, including accommodation, education, training and employment (ETE), substance misuse and mental health.

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400
Gohebiaeth.Mick.Antoniw@llyw.cymru
Correspondence.Mick.Antoniw@gov.Wales

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1SN

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

The source data for the Youth Justice dashboard is published annually, and it is our intention to update in a timely manner. We are also considering other sources of data relating to Youth Justice to include in future updates.

Analysts are currently developing a further suite of dashboards for publication, which include topics such as courts, prisons, crime occurrences, legal aid and workforce statistics with the aim of making these dashboards publicly available during 2023-24. Drafts of some of these have previously been shared with the Committee.

Work to improve our understanding of the Wales justice data landscape and current gaps

Welsh Government officials have continued work to identify crime and justice data requirements in Wales. The Knowledge and Analytical Services directorate have undertaken work to map the existing criminal justice data published on government websites, to identify where disaggregated data is available for Wales and the specific areas of data where Welsh specific data is missing.

For the first time, this work has given us a comprehensive view of the Welsh criminal justice data landscape, allowing us to clarify our understanding of what is available and where there are gaps which could be addressed. This includes mapping out the available data on crime, prisons and probation, youth justice and the criminal justice workforce.

This mapping exercise, including the current gaps we think could be addressed, has been shared with the Ministry of Justice who have agreed to consider it and provide a response on what is feasible in the short and longer term. Given the scale of the work, the MoJ have asked for our view on the most important areas to address and I wrote to Lord Bellamy on 14 September to highlight the following priorities:

- Areas where MoJ has provided data in response to FoI requests, but data is not routinely published.
- Improved data on race and ethnicity in line with the Criminal Justice Anti-Racist Wales Action Plan
- Data relating to the Women's Justice Blueprint and Youth Justice Blueprint
- Improving the availability and accessibility of existing published Wales-specific data, for instance through dashboards similar to the ones now being published by Welsh Government.

MoJ are continuing to consider this work. If it leads to improvements, our intention would be to expand the mapping work to cover other areas of the broader justice system such as courts, tribunals and legal aid.

Better Outcomes through Linked Data (BOLD)

The BOLD programme is a three-year, cross-Government (Welsh and UK Government) pilot programme, created to demonstrate how individuals with complex needs may be better supported by the Government through linking and improving data in a safe, secure and ethical way. To ensure that BOLD delivers for the individuals with complex needs that it aims to serve, four projects have been identified that could deliver the greatest impact with the highest probability of success. The four key vulnerability projects chosen are: Substance Misuse, Homelessness, Reducing Reoffending and Victim Pathways.

As part of this programme Wales received circa £500k of funding for a data linking project investigating substance misuse services and pathways in Wales. The Welsh Substance Misuse pilot is a joint project across Welsh Government, Public Health Wales and the SAIL databank.

The Welsh pilot has 4 themes for analysis:

- Prevention of escalation of Substance Misuse
- Reducing Reoffending
- Intergenerational Substance Misuse
- Substance Misuse Treatment Effectiveness.

The Welsh Substance Misuse pilot is currently undertaking analysis across all four themes, with publications due by March 2024.

<u>Race Disparity Evidence Unit (RDEU)</u>

We have established a Race Disparity Evidence Unit (RDEU), as set out in our Programme for Government.

The Unit's mission is to improve the availability, quality, granularity and accessibility of evidence about individuals with protected and associated characteristics. This will enable decision makers to develop better informed policies that can be monitored and evaluated for their impact. In turn, this will drive us towards better outcomes for people with protected and associated characteristics and contribute to the national well-being goal of a more equal Wales.

The RDEU has been working with different policy areas on ethnicity classifications, data collection and terminology so there is clarity and consistency across the board as well as conducting several mapping exercises to facilitate this and undertaking an extensive programme of stakeholder engagement.

The RDEU has developed a framework for measuring the overall impact of the Welsh Government's Anti-racist Wales Action Plan and is assessing the feasibility of using this framework.

The Anti-racist Wales Action Plan is also supported by an External Accountability Group populated by experts with lived experience. A research sub-group of the External Accountability Group has been established and had its first meeting in September. This group will support the RDEU with shaping the development of measurement indicators and how to incorporate lived experience research. This includes contributing to research and evaluation in eight different areas (Crime & Justice, Education, Environment, Childcare & Play, Health, Sanctuary, Refugee & Asylum, Welsh Government HR, and Social Care).

Working with different policy and government areas will ensure consistency of data classifications and impact measurements of the Anti-Racist Wales Action Plan.

This remains an important area of priority for the Welsh Government, and we will continue to work with the UK Government and with expert stakeholders in Wales to maximise progress.

Yours sincerely

**Mick Antoniw AS/MS**
Y Cwnsler Cyffredinol a Gweinidog y Cyfansoddiad
Counsel General and Minister for the Constitution

**Mick Antoniw AS/MS**
**Y Cwnsler Cyffredinol a Gweinidog y Cyfansoddiad**
**Counsel General and Minister for the Constitution**

Ein cyf: CG/PO/339/2023

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Huw Irranca-Davies AS
Cadeirydd
Y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad
Senedd Cymru
SeneddDCC@senedd.cymru

12 fed Hydref 2023

Annwyl Huw

Diolch ichi am eich llythyr dyddiedig 22 Medi 2023 yn gofyn am ymatebion i gwestiynau mewn perthynas â Deddf Cyfraith yr UE a Ddargedwir (Dirymu a Diwygio). Mae fy atebion i'w gweld yn yr Atodiad canlynol.



**Mick Antoniw AS/MS**
Y Cwnsler Cyffredinol a Gweinidog y Cyfansoddiad
Counsel General and Minister for the Constitution

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1SN

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400
Gohebiaeth.Mick.Antoniw@llyw.cymru
Correspondence.Mick.Antoniw@gov.Wales

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

**Yr Atodiad**

*1. ...byddwn yn ddiolchgar pe baech yn gwneud y canlynol:*

*i. cadarnhau'r broses gydsynio y cytunwyd arni rhwng Llywodraeth y DU a'r Llywodraethau Datganoledig a darparu manylion amdani,*

Nid yw Llywodraeth y DU a'r Llywodraethau Datganoledig wedi cytuno ar unrhyw fecanwaith ynghylch sut y dylid cael cydsyniad mewn perthynas â Gweinidogion y DU yn gwneud rheoliadau gan ddefnyddio pwerau yn Neddf Cyfraith yr UE a Ddargedwir (Dirymu a Diwygio) 2023 mewn maes cymhwysedd datganoledig yng Nghymru. Rydym ar fin ysgrifennu eto ar lefel Weinidogol am y mater hwn i bwysleisio bod angen proses glir er mwyn parchu'r broses ddatganoli ar gyfer llywodraethau a deddfwrfeydd fel ei gilydd.

*ii. cadarnhau bod y broses gydsynio yn "diogelu ac yn parchu'r setliad datganoli", a*

Fel uchod, bydd angen mwy o gyfraniad gan Lywodraeth y DU er mwyn cadarnhau hyn.

*iii. darparu copi o'r cytundeb rhynglywodraethol perthnasol i bwyllgorau'r Senedd.*

Byddaf yn hapus i ddarparu copi i'r Pwyllgorau pan gytunir ar unrhyw beth.

*2. ...Pa gyngor a chanllawiau a ddarparwyd i adrannau unigol yn Llywodraeth Cymru am y gwaith y mae'n rhaid iddynt ei wneud i sicrhau eu bod yn hyderus nad oes angen cyfraith yr UE a ddargedwir a restrir yn yr Atodlen i Ddeddf Cyfraith yr UE a Ddargedwir (Dirymu a Diwygio) 2023 mwyach?*

Bu swyddogion Llywodraeth Cymru yn y tîm canolog sy'n ymdrin â materion ôl-Brexit yn gweithio gyda thimau polisi unigol i sicrhau bod cynnwys yr Atodlen sy'n dirymu offerynnau yn addas i'r diben pan gafodd ei llunio yn y cyfnodau olaf yn Senedd San Steffan. Mae'r timau polisi hynny hefyd wedi gweithio gydag Adrannau'r DU i sicrhau bod yr holl fesurau angenrheidiol yn cael eu cadw.

*3. ...Byddwn yn ddiolchgar os gallwch gadarnhau natur a manylion yr ymgysylltiad hwn, a pha ddadansoddiad y mae Llywodraeth Cymru wedi'i wneud ar y 93 o ddarnau o gyfraith yr UE a ddargedwir sydd wedi'u cynnwys yn Atodlen 2 i'r Rheoliadau hyn.*

Mae'r mwyafrif helaeth o'r 93 o ddarnau hynny yn faterion sy'n ymwneud â chymhwysedd a gedwir yn ôl o ran Cymru. O ran yr ychydig rai a oedd yn ymwneud â chymhwysedd datganoledig yng Nghymru, cysylltodd swyddogion yn Adrannau'r DU â swyddogion cyfatebol yn Llywodraeth Cymru wrth baratoi'r Rheoliadau. Yn y

cyd-destun hwnnw, mae dadansoddiad Llywodraeth Cymru wedi bod yn gymesur ac yn briodol.

*4. ...Pa fecanweithiau, os o gwbl, sy'n bodoli yn Llywodraeth Cymru i fonitro newidiadau i gyfraith yr UE a ddargedwir mewn meysydd a gedwir yn ôl a all effeithio ar Gymru, gan gynnwys ei heffaith mewn meysydd datganoledig hyd at fis Mehefin 2026?*

Mae'n flaenoriaeth i Lywodraeth Cymru ganolbwyntio ar faterion sy'n ymwneud â chymhwysedd datganoledig yng Nghymru sy'n deillio o weithredu Deddf Cyfraith yr UE a Ddargedwir (Dirymu a Diwygio) 2023. Nid ydym wedi sefydlu mecanwaith cyffredinol i fynd i'r afael ag offerynnau sy'n ymdrin â materion sy'n ymwneud â chymhwysedd a gedwir yn ôl yng Nghymru. Byddwn yn parhau i adolygu unrhyw offerynnau o'r fath ac yn mynd i'r afael ag unrhyw oblygiadau ar gyfer materion y mae Llywodraeth Cymru yn gyfrifol amdanynt yn unol â hynny.

*5. ...Byddwn yn ddiolchgar pe gallech gadarnhau mai dyma'r sefyllfa ar draws holl adrannau Llywodraeth Cymru.*

Ie, dyma'r sefyllfa ar draws Llywodraeth Cymru gyfan.

*6. Mae'r ddwy eitem sy'n destun yr ohebiaeth uchod gan y Gweinidog Newid Hinsawdd yn dangos, ar gyfer un set o Reoliadau (sy'n ymwneud â nwyon tŷ gwydr wedi'u fflworeiddio) y defnyddiwyd y fframwaith cyffredin perthnasol ond nid ar gyfer un arall (sy'n ymwneud â Rheoliadau Terfynau Uchaf Allyriadau Cenedlaethol).*

*i. A allwch chi esbonio'r rheswm dros hyn?*

Bydd y Pwyllgor yn ymwybodol, oherwydd ei fod yn goruchwylio'r rhaglen Fframweithiau Cyffredin, fod lefel yr ymgysylltu rhwng Llywodraeth y DU a'r llywodraethau datganoledig yn amrywio gan ddibynnu ar y maes Fframwaith perthnasol. Mewn meysydd polisi lle mae prosesau Fframweithiau wedi'u gwreiddio'n dda, rhennir gwybodaeth am gynigion polisi a chynigion deddfwriaethol mewn modd adeiladol ac yn amserol gyda Llywodraeth Cymru

*ii. Rydych chi wedi dweud wrthym o'r blaen nad oedd modd i chi weld Atodlen 1 i Ddeddf Cyfraith yr UE a Ddargedwir (Dirymu a Diwygio) 2023 cyn iddi gael ei hychwanegu at y Bil yn ystod y cyfnodau diwygio yn Senedd y DU. A allwch gadarnhau a aeth y penderfyniad i gynnwys unrhyw ddarn o gyfraith yr UE a ddargedwir a restrir ar Atodlen 1 i Ddeddf Cyfraith yr UE a Ddargedwir (Dirymu a Diwygio) 2023 drwy'r fframwaith cyffredin cyfatebol?*

Byddem yn disgwyl y byddai trafodaethau wedi digwydd drwy'r Fframwaith Cyffredin perthnasol. Mae hyn yn dilyn ymrwymiad gan Lywodraeth y DU i ddefnyddio Fframweithiau Cyffredin yn gywir ac na fyddent yn ceisio gwneud newidiadau i

gyfraith yr UE a ddargedwir o fewn Fframweithiau Cyffredin heb ddilyn y prosesau y cytunwyd arnynt gan weinidogion ac a amlinellir yn y dogfennau.

**Y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad**

—

**Legislation, Justice and Constitution Committee**

**Senedd Cymru**
Bae Caerdydd, Caerdydd, CF99 1SN
SeneddDCC@senedd.cymru
senedd.cymru/SeneddDCC
0300 200 6565

—

**Welsh Parliament**
Cardiff Bay, Cardiff, CF99 1SN
SeneddLJC@senedd.wales
senedd.wales/SeneddLJC
0300 200 6565

Mick Antoniw AS
Y Cwnsler Cyffredinol a Gweinidog y Cyfansoddiad

22 Medi 2023

Annwyl Mick,

Bil Cyfraith yr UE a Ddargedwir (Dirymu a Diwygio) 2023

Diolch am eich llythyr ar 12 Medi 2023 a gafodd ei drafod yn ein cyfarfod ar 18 Medi 2023. Rydym yn croesawu eich ymatebion i'r cwestiynau a ofynnwyd yn ein llythyr ar 14 Gorffennaf.

Yn ystod yr wythnosau diwethaf, rydym wedi trafod gohebiaeth gan Weinidogion eraill Cymru sy'n ymwneud â *Deddf Cyfraith yr UE a Ddargedwir (Dirymu a Diwygio) 2023*. Er ein bod wedi ysgrifennu at y Gweinidogion hynny gyda rhai cwestiynau penodol, mae materion y byddem yn croesawu eich barn amdanynt. Yn ogystal, hoffem fynd ar drywydd nifer o faterion a godwyd yn eich llythyr diweddaraf atom.

Fel y cyfryw, byddwn yn ddiolchgar pe gallech ddarparu ymateb i'n cwestiynau eraill, sydd wedi'u cynnwys yn yr atodiad i'r llythyr hwn, erbyn 12 Hydref 2023.

Yn gywir,

Huw Irranca-Davies

Huw Irranca-Davies
Cadeirydd

Atodiad

1. Yn eich llythyr, rydych yn datgan bod Nusrat Ghani AS, y Gweinidog Gwladol dros Ddiwydiant a Diogelwch Economaidd, wedi ysgrifennu atoch ar 2 Awst yn gofyn am gydsyniad Gweinidogion Cymru i reoliadau a fyddai'n dileu "nifer fechan o offerynnau yn yr Atodlen [i Ddeddf Cyfraith yr UE a Ddargedwir (Dirymu a Diwygio) 2023] y dylid eu cadw gan eu bod yn dal i gael eu defnyddio". Rydym hefyd wedi cael gohebiaeth gan y Gweinidog Newid Hinsawdd a'r Gweinidog Materion Gwledig a Gogledd Cymru, a'r Trefnydd lle y maent wedi ein hysbysu eu bod hwythau wedi cydsynio i Weinidogion y DU wneud rheoliadau gan ddefnyddio pwerau yn Neddf Cyfraith yr UE a Ddargedwir (Dirymu a Diwygio) 2023. Gwyddoch nad yw Deddf Cyfraith yr UE a Ddargedwir (Dirymu a Diwygio) 2023 yn cynnwys darpariaeth sy'n gwneud cydsyniad Gweinidogion Cymru yn ofynnol cyn i Weinidog y DU arfer pŵer dirprwyedig mewn maes datganoledig o dan y Ddeddf honno. Yn eich llythyr, rydych yn datgan nad yw'r mater ynghylch 'mecanwaith cydsyniad amgen amgen' wedi'i ddatrys yn llawn eto. O ystyried yr ohebiaeth rydym yn cyfeirio ati uchod, byddwn yn ddiolchgar pe baech yn gwneud y canlynol:

i. cadarnhau'r broses gydsynio y cytunwyd arni rhwng Llywodraeth y DU a'r Llywodraethau Datganoledig a darparu manylion amdani,

ii. cadarnhau bod y broses gydsynio yn "diogelu ac yn parchu'r setliad datganoli",

iii. darparu copi o'r cytundeb rhynglywodraethol perthnasol i bwyllgorau'r Senedd.

2. Yn eich llythyr, rydych yn datgan bod gwaith trawslywodraethol i adolygu Atodlen 1 i Ddeddf Cyfraith yr UE a Ddargedwir (Dirymu a Diwygio) 2023 wedi parhau. Fel y soniwyd yng nghwestiwn 1, rydych yn datgan bod y Gweinidog Gwladol dros Ddiwydiant a Diogelwch Economaidd wedi ysgrifennu atoch ar 2 Awst yn gofyn am gydsyniad Gweinidogion Cymru i reoliadau a fyddai'n dileu nifer fechan o offerynnau o Atodlen 1 i Ddeddf Cyfraith yr UE a Ddargedwir (Dirymu a Diwygio) 2023 oherwydd bod yr Awdurdod Gweithredol Iechyd a Diogelwch wedi nodi'r offerynnau hyn fel "sail gyfreithiol ar gyfer defnyddio [cynhyrchion bioleiddiadol sy'n cynnwys copr] yn ddiogel". Rydych yn cadarnhau bod swyddogion Llywodraeth Cymru wedi adolygu ymhellach y darpariaethau a nodwyd gan yr Awdurdod Gweithredol Iechyd a Diogelwch ac yn cytuno y dylid eu cadw. Mae nodi'r darpariaethau hyn yn fater i'w groesawu, ond yn un difrifol. Mewn llythyr at y Pwyllgor Newid Hinsawdd, yr Amgylchedd a Seilwaith, dywedodd y Gweinidog Newid Hinsawdd fod ei hadran wedi "asesu'r Atodlen drwy ***adolygiad polisi llai manwl***". [Ychwanegwyd y pwyslais]. Pa gyngor a chanllawiau a ddarparwyd i adrannau unigol yn Llywodraeth Cymru am y gwaith y mae'n rhaid iddynt ei wneud i sicrhau eu bod yn


Senedd Cymru
Welsh Parliament

hyderus nad oes angen cyfraith yr UE a ddargedwir a restrir yn yr Atodlen i Ddeddf Cyfraith yr UE a Ddargedwir (Dirymu a Diwygio) 2023 mwyach?

3. Credwn mai’r rheoliadau sy'n destun y llythyr gan y Gweinidog Gwladol dros Ddiwydiant a Diogelwch Economaidd yw Rheoliadau Deddf Cyfraith yr UE a Ddargedwir (Dirymu a Diwygio) 2023 (Dirymu a Datgymhwyso Darpariaeth Fachlud) 2023. Yn ogystal â’r offeryn hwn yn atal dirymu offerynnau y mae rhagor o ddadansoddiad wedi nodi na ddylent fod wedi'u cynnwys yn Atodlen dirymu Deddf Cyfraith yr UE a Ddargedwir (Dirymu a Diwygio) 2023, bydd y Rheoliadau hyn yn dirymu 93 darn o Ddeddf Cyfraith yr UE a Ddargedwir (Dirymu a Diwygio) 2023, gan ddefnyddio'r pŵer a roddir yn adran 14(1) o Ddeddf Cyfraith yr UE a Ddargedwir (Dirymu a Diwygio) 2023 i ddirymu darnau o ddeddfwriaeth sy'n ddiangen, wedi’u disodli neu nad ydynt yn cael effaith gyfreithiol yn y DU mwyach ar ôl i ni ymadael â’r UE. Mae Memorandwm Esboniadol drafft Llywodraeth y DU yn datgan yr ymgysylltwyd â’r gweinyddiaethau datganoledig ar ddiben a chynnwys yr offeryn hwn. Byddwn yn ddiolchgar os gallwch gadarnhau natur a manylion yr ymgysylltiad hwn, a pha ddadansoddiad y mae Llywodraeth Cymru wedi'i wneud ar y 93 o ddarnau o gyfraith yr UE a ddargedwir sydd wedi'u cynnwys yn Atodlen 2 i'r Rheoliadau hyn.

4. Yn eich llythyr, rydych yn cadarnhau bod “ein hadolygiad hyd yma wedi canolbwyntio’n bennaf ar yr offerynnau mewn meysydd datganoledig”. Pa fecanweithiau, os o gwbl, sy'n bodoli yn Llywodraeth Cymru i fonitro newidiadau i gyfraith yr UE a ddargedwir mewn meysydd a gedwir yn ôl a all effeithio ar Gymru, gan gynnwys ei heffaith mewn meysydd datganoledig hyd at fis Mehefin 2026?

5. Yn ei llythyr at y Pwyllgor Newid Hinsawdd, yr Amgylchedd a Seilwaith, dywedodd y Gweinidog Newid Hinsawdd “Yn fwy cyffredinol, nid oes gennym gynlluniau ar hyn o bryd i ddefnyddio unrhyw bwerau o dan Ddeddf REUL i ddirymu neu ddiwygio cyfraith gymhathedig.” Datganodd y Gweinidog hefyd “n[a]d oes gan Lywodraeth Cymru unrhyw gynlluniau i ddefnyddio ei phwerau o dan y Ddeddf i ddirymu unrhyw ddarnau pellach o gyfraith gymhathedig, nac i gyflwyno deddfwriaeth newydd i ddisodli deddfwriaeth a gynhwysir yn Atodlen 1 y Ddeddf.” Byddwn yn ddiolchgar pe gallech gadarnhau mai dyma'r sefyllfa ar draws holl adrannau Llywodraeth Cymru.

6. Mae'r ddwy eitem sy'n destun yr ohebiaeth uchod gan y Gweinidog Newid Hinsawdd yn dangos, ar gyfer un set o Reoliadau (sy'n ymwneud â nwyon tŷ gwydr wedi'u fflworeiddio) y defnyddiwyd y fframwaith cyffredin perthnasol ond nid ar gyfer un arall (sy’n ymwneud â Rheoliadau Terfynau Uchaf Allyriadau Cenedlaethol).

i. A allwch chi esbonio’r rheswm dros hyn?

ii. Rydych chi wedi dweud wrthym o'r blaen nad oedd modd i chi weld Atodlen 1 i Ddeddf Cyfraith yr UE a Ddargedwir (Dirymu a Diwygio) 2023 cyn iddi gael ei hychwanegu at y Bil yn ystod y cyfnodau diwygio yn Senedd y DU. A allwch gadarnhau a aeth y penderfyniad i gynnwys unrhyw ddarn o gyfraith yr UE a ddargedwir a restrir ar Atodlen 1 i Ddeddf Cyfraith yr UE a Ddargedwir (Dirymu a Diwygio) 2023 drwy'r fframwaith cyffredin cyfatebol?

# Eitem 10

Yn rhinwedd paragraff(au) vi o Reol Sefydlog 17.42

Mae cyfyngiadau ar y ddogfen hon